



## **Polisi ac Arweiniad i Ysgolion**

**Ymyriad Corfforol Cyfyngol:  
defnyddio grym rhesymol i atal a rheoli plant a  
phobl ifanc**

**Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad RhCT**

**Mehfin 2012**

## Cynnwys

### Crynodeb

1. Cyflwyniad
2. Beth Mae'r Gyfraith yn ei Ddweud
3. Cyfrifoldebau Ysgolion
4. Hyfforddiant Staff
5. Cofnodi a Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau
6. Cefnogi ac Adolygu
7. Monitro
8. Pryderon a Chwynion
9. Cyswllt Corfforol â Disgyblion o dan Amgylchiadau Eraill

Atodiad 1	Fframwaith Polisi Ysgol Awgrymedig
Atodiad 2	Polisi Enghreifftiol
Atodiad 3	Taflen Cofnodi Digwyddiad Difrifol
Atodiad 4	Cynllun Ymdrin yn Gadarnhaol
Atodiad 5	Gair i Gall
Atodiad 6	Arweiniad Cryno i Staff ar ddefnyddio Ymyriad Corfforol

## Crynodeb

Mae'r ddogfen Bolisi hon yn rhoi arweiniad a chymorth i gyrff llywodraethu, penaethiaid ac athrawon ynghylch defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol mewn ysgolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Bwriedir iddi gynorthwyo ysgolion wrth gynnig amgylchedd diogel i staff a phlant a phobl ifanc ac mae'r un mor berthnasol i ysgolion prif ffrwd, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) ac ysgolion arbennig. Mae'r polisi a'r cyngor a gyflwynir yn y ddogfen hon yn cynnig y fframwaith egwyddorion y dylai staff ei ddilyn i wneud penderfyniadau ac i fynd i'r afael â digwyddiadau penodol. Dylai staff fod yn ymwybodol bod eu cyflogaeth yn cyflwyno dyletswydd gofal arnynt i gynnal lefel dderbyniol o ddiogelwch. Ni all canllawiau ysgrifenedig ragweld pob sefyllfa. Serch hynny, bwriad y ddogfen hon yw cynnig lefel o amddiffyniad i bobl ifanc ac i staff.

Dyma arweiniad ar y pŵer sydd ar gael i ysgolion i helpu rheoli ymddygiad disgyblion ac mae'n rhoi sylw i'r arweiniad a ddarperir gan ddogfen Llywodraeth Cymru 'Ymyriad Diogel ac Effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau' ac adran 93 'Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006.' Cychwynnodd y pwerau hyn ym mis Hydref 2010 ac fe wnaethant ddisodli adran 550A y Ddeddf Addysg drwy fân newidiadau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT yn ystyried ei bod hi'n hanfodol bwysig bod gan bob ysgol bolisi ymddygiad ysgol gyfan sydd wedi'i fynegi'n glir, sy'n datganoli'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli ymddygiad heriol ac sydd wedi'i rannu gyda llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Bwriad y canllaw hwn yw sicrhau bod fframwaith cyffredinol i gynorthwyo pob ysgol, ysgol arbennig ac uned cyfeirio disgyblion wrth lunio a datblygu ei pholisi a'i gweithdrefnau arbennig ei hun mewn perthynas â defnyddio grym rhesymol i reoli a chadw trefn ar ymddygiad disgyblion.

Cynghorir ysgolion i gyfeirio at eu polisi ymyriad corfforol cyfyngol yn y prospectws a roddant i rieni. Gallai paragraff enghreifftiol ddarllen fel a ganlyn:

*Gwnawn bopeth o fewn ein gallu yn ein hysgol i reoli ymddygiad yn gadarnhaol. Fodd bynnag, gall fod adegau pan fydd angen i ni ddefnyddio grym i gadw plentyn neu blant yn ddiogel, neu i gynnal trefn dda yn yr ysgol. Mewn achosion o'r fath, byddem bob amser yn gweithredu yn ôl egwyddor grym rhesymol. Mae gennym bolisi sy'n rhoi arweiniad manylach ar ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol.*

Dylai polisiâu ysgolion ar ymyriad corfforol fod yn gyson â'u polisiâu cysylltiedig ar Ddiogelu Plant a Chyfle Cyfartal, ac arweiniad cenedlaethol a lleol i ysgolion ar ddiogelu plant. Yn benodol, dylid rhoi sylw gofalus i faterion sy'n gysylltiedig ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledd, rhywedd a phreifatrwydd, ac i unrhyw ofynion penodol sydd gan grwpiau diwylliannol/crefyddol penodol.

Gall rhai strategaethau a dulliau ymddangos fel petaent yn canolbwyntio'n unig ar ddulliau a thechnegau sy'n gyfyngol yn gorfforol fel dulliau gafael, sydd yn rhan yn unig o'r continwrm o strategaethau rheoli ymddygiad y mae eu hangen i reoli ymddygiad heriol. Felly, am y rhesymau hyn, mae Llywodraeth Cymru, yn ei chanllaw **Ymyriad Diogel ac Effeithiol**, yn defnyddio'r ymadrodd "grym rhesymol" i ddisgrifio gweithred diogelu corfforol.

Mae defnyddio grym rhesymol yn un agwedd yn unig ar y strategaethau sydd ar gael i staff wrth reoli ymddygiad heriol. Mae'n bwysig iawn bod pob cam ataliol wedi'i gymryd fel na fydd angen defnyddio grym rhesymol. Dylai defnyddio grym rhesymol gael ei ystyried fel yr opsiwn

olaf un o bell ffordd. Dylai staff gael eu hannog i sicrhau bod disgyblion sy'n arddangos ymddygiad heriol yn cael cyfleoedd i ymddwyn yn effeithiol drwy:

- Raglenni rheoli ymddygiad yn gadarnhaol
- Strategaethau datrys anghydfod
- Strategaethau tawelu

Yn yr arweiniad hwn, cyfeirir at “ymyriad corfforol cyfyngol” ac yn hyn o beth mae defnyddio grym rhesymol yn strategaeth sydd ar gael i staff os ydynt wedi defnyddio pob dull arall neu os yw iechyd a diogelwch disgybl neu aelod o staff mewn perygl.

Mae'r defnydd, neu'r defnydd posibl, o ymyriad corfforol cyfyngol pan fydd aelod o staff yn defnyddio grym yn fwriadol i gyfyngu ar symudiad plentyn yn erbyn ei ewyllys yn debygol o godi pryderon. Dylai disgyblion a rhieni fod yn dawel eu meddwl gan fod y Cyngor yn cynnig arweiniad clir i ysgolion ar ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol. Dylai staff fod yn dawel eu meddwl y bydd eu gweithrediadau yn cael cefnogaeth eu cydweithwyr, pennaeth, corff llywodraethu a'r Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes, lle bônt yn dilyn y canllawiau a gyflwynir yn y polisi enghrefftiol a lle bônt yn gweithredu gydag ewyllys da.

## Termau

Mae'r arweiniad hwn yn defnyddio'r ymadrodd “ymyriad corfforol cyfyngol” i gyfeirio at amgylchiadau pan fydd “aelod o staff yn defnyddio grym yn fwriadol i gyfyngu ar symudiad plentyn yn erbyn ei ewyllys”. Defnyddir y gair “ysgol” i gyfeirio at “ysgol neu sefydliad addysgol arall” (fel UCD); mae'r gair “disgybl” yn cyfeirio at unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n mynd i ysgol a gynhelir gan y Cyngor Sir.

## 1 Cyflwyniad

- 1.1** Mae'r arweiniad hwn yn disodli'r arweiniad sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yng Nghylchlythyr 37/98 y Swyddfa Gymreig ac mae'n rhoi cyfarwyddyd ar bwerau staff ysgol i ddefnyddio grym fel y'u cyflwynir yn Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Dechreuodd y pwerau hyn yn Hydref 2010 a gwnaethant ddisodli Adran 550A Deddf Addysg 1996, gyda mân newidiadau.
- 1.2** Mae gan bob aelod o staff ysgolion bŵer cyfreithiol i ddefnyddio grym rhesymol i atal disgyblion rhag cyflawni trosedd, anafu eu hunain neu ddisgyblion eraill, neu ddifrodi eiddo; a chynnal trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion.
- 1.3** Dylid canolbwyntio ar atal, i'r graddau y bydd hynny'n bosibl, yr angen am ddefnyddio grym ar ddisgyblion, trwy greu awyrgylch tawel, trefnus a chefnogol yn yr ysgol sy'n lleihau'r risg a'r bygythiad o drais o unrhyw fath. Dylid defnyddio grym fel dewis olaf, a dylai ysgolion leihau'r posibilrwydd y bydd angen grym. Efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl ac o dan amgylchiadau o'r fath, dylai staff fod yn ymwybodol o'r materion sensitif sy'n gysylltiedig ag unrhyw fath o gyswllt corfforol â disgyblion.

- 1.4** Ni ddylai ysgolion byth geisio rhwystro gallu staff i ddefnyddio grym drwy fabwysiadu polisi 'dim cyswllt'. Mae'r pŵer i ddefnyddio grym yn helpu i sicrhau diogelwch disgyblion a staff. Gall polisi 'dim cyswllt' olygu bod aelod o staff yn torri ei ddyletswydd gofal tuag at ddisgybl, neu'n atal yr aelod staff rhag gweithredu mewn ffordd sydd ei hangen i atal disgybl rhag achosi anaf i eraill neu ddifrod i eiddo.
- 1.5** Diben deddfu ynghylch defnyddio grym oedd cynnig pŵer clir a thryloyw sy'n galluogi staff i ddefnyddio grym rhesymol ar ddisgyblion mewn amgylchiadau penodol, gan ddiogelu plant a phobl ifanc ar yr un pryd rhag trais, anaf neu gam-drin corfforol, fel y'i cyflwynir yn Erthygl 19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r ddogfen hon yn cynnig arweiniad ar sut y dylid arfer y pŵer, yn enwedig i:
- helpu staff ysgolion ddeall beth mae'r gyfraith yn ei olygu iddynt yn ymarferol;
  - diogelu disgyblion trwy leihau'r risgiau y gallai grym gael ei ddefnyddio'n amhriodol; a
  - darparu cyngor ar arfer da;
- 1.6** Er bod Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn cyfeirio'n benodol at rym ("force"), mae hyn yn cwmpasu'r ystod eang o strategaethau sy'n cynnwys rhywfaint o bŵer corfforol i atal disgyblion rhag niweidio eu hunain neu eraill, gwneud difrod i eiddo neu achosi anhrefn. Mae'r ystod yn amrywio o afael yn llaw neu fraich disgybl i'w arwain i ddiogelwch, i amgylchiadau eithriadol pan fydd angen atal disgybl er mwyn atal trais neu anaf iddo'i hun neu i eraill.

Mewn ysgolion, defnyddir grym yn gyffredinol ar gyfer dau ddiben gwahanol – i reoli disgyblion ac i'w hatal:

- Gall rheoli olygu cyswllt corfforol goddefol (e.e. sefyll rhwng disgyblion neu atal llwybr disgybl) neu gyswllt corfforol gweithredol (e.e. gafael yn llaw neu fraich disgybl i'w arwain neu dywys disgybl i ffwrdd drwy osod llaw yng nghanol y cefn).
- Pan fydd aelodau o staff yn defnyddio "ataliaeth" maent yn atal disgybl yn gorfforol rhag parhau i wneud yr hyn yr oedd yn ei wneud ar ôl i chi ddweud wrtho am beidio â'i wneud.
- Defnyddir technegau atal fel arfer mewn amgylchiadau mwy eithafol, pan fydd dau ddisgybl yn ymladd, er enghraifft, ac mae angen ymyriad corfforol i'w gwahanu.

## **1.7 Pryd gellir defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol**

Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gellid defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol:

- atal disgybl rhag ymosod ar aelod o staff, neu ddisgybl arall, neu i atal dau ddisgybl neu fwy rhag ymladd;
- atal disgybl rhag gwneud difrod difrifol, bwriadol i eiddo;
- atal disgybl rhag achosi anaf neu ddifrod yn ddamweiniol, drwy chwarae'n wyllt, neu drwy gamddefnyddio deunyddiau neu wrthrychau peryglus, i unrhyw un (gan gynnwys y disgybl ei hun)
- sicrhau bod disgybl yn gadael ystafell ddosbarth pan fydd y disgybl yn gwrthod yn gyson dilyn cyfarwyddyd i wneud hynny;
- atal disgybl rhag ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu'n ddifrifol ar wers; neu
- atal disgybl rhag ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu'n ddifrifol ar ddigwyddiad chwaraeon ysgol neu ymweliad ysgol;

- cyflawni trosedd (neu, yn achos disgybl o dan oedran cyfrifoldeb troseddol, yr hyn a fyddai'n drosedd i ddisgybl hŷn);
- os bydd disgybl yn ffoi o ddsbarth neu'n ceisio gadael yr ysgol heblaw ar amser awdurdodedig. Nid yw disgybl yn gwrthod aros mewn man penodol yn ddigon ynddo'i hun i gyfiawnhau defnyddio grym. Byddai modd ei gyfiawnhau pan fyddai gadael i ddisgybl adael yn golygu risgiau difrifol i ddiogelwch y disgybl (gan gymryd oedran a dealltwriaeth i ystyriaeth), i ddiogelwch disgyblion eraill neu staff, neu o ddifrod i eiddo).

Yn yr enghreifftiau hyn, byddai defnyddio grym yn rhesymol (ac felly'n gyfreithlon) pe bai'n glir bod yr ymddygiad yn ddigon peryglus neu aflonyddgar i gyfiawnhau'r ymyriad corfforol i'r graddau ag y'i defnyddiwyd ac na fyddai unrhyw ddull arall wedi gallu delio â'r ymddygiad yn realistig. Yr amgylchiadau mwyaf arferol pan ellir defnyddio grym rhesymol yw pan fydd ymddygiad disgybl yn achosi neu'n debygol o achosi anaf personol. Caiff staff ysgolion eu cynghori i fod yn ofalus iawn ynghylch defnyddio grym rhesymol pan nad oes pryderon ynghylch anaf posibl neu ddifrod i eiddo ac, yn unol â hynny, ni ddylai ddigwydd heblaw o dan amgylchiadau eithriadol.

Fel arfer, prif nod ymyriad corfforol cyfyngol yw cynnal neu adfer diogelwch. Cydnabyddir y gall fod adegau pan ellir cyfiawnhau ymyriad corfforol cyfyngol fel ymateb rhesymol a chymesur i atal difrod i eiddo neu i gynnal trefn a disgyblaeth dda yn yr ysgol. Fodd bynnag, cynghorir staff ysgolion i fod yn arbennig o ofalus i ystyried pob opsiwn arall sydd ar gael cyn defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol i gyflawni'r naill neu'r llall o'r nodau hyn. Dylid ond defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol pan fydd aelod o staff yn barnu bod ei ddefnyddio yn debygol o gyflawni un o'r nodau hyn ac, yn hollbwysig, dim ond pan fydd yn cyd-fynd â'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu yn adran 3. Mae cofio bod ymyriad corfforol cyfyngol yn cael ei ddefnyddio fel y "dewis olaf" yn hanfodol. Dylid gwneud cofnod o'r digwyddiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, tra bod y digwyddiad yn hawdd ei gofio.

**1.8** Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai'r barnau hyn ystyried nodweddion penodol y disgybl, gan gynnwys ei oedran, ei ddealltwriaeth ac unrhyw AAA neu anabledd sydd ganddo. Byddai hyn yn cynnwys canlyniadau unrhyw asesiad risg ac, fel y bo'n briodol, unrhyw strategaethau a thechnegau penodol sydd wedi'u cyflwyno yng nghynllun ymdrin yn gadarnhaol y disgybl.

### **1.9 Pwy all ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol**

Gall pob aelod staff ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol i gynnal diogelwch mewn argyfwng. Mewn argyfwng, dylai staff wneud eu gorau o fewn yr egwyddor grym rhesymol (yn gymesur â risg, yn angenrheidiol ac yn ddewis olaf). Mewn sefyllfaoedd eraill, dylid rhoi asesiad risg a chynllun ymyrryd ar waith. Mae pawb sy'n cael eu cyflogi i addysgu mewn ysgol wedi'u hawdurdodi trwy rinwedd eu contract sy'n rhoi iddynt reolaeth dros ddisgyblion a chyfrifoldeb amdanynt, i ddefnyddio grym rhesymol o dan yr holl amgylchiadau yn adran 1.7 uchod o ran disgyblion sy'n mynychu'r ysgol honno (gan gynnwys y rhai sy'n mynychu dros dro).

**1.10** Dylai'r arweiniad helpu ysgolion i ddeall beth mae'r gyfraith yn ei olygu iddynt yn ymarferol, ynghyd â rhoi cyngor iddynt ar arfer da. Diben y gyfraith a'r arweiniad hwn yw diogelu staff a disgyblion, atal difrod neu aflonyddu difrifol a lleihau'r tebygolrwydd y bydd camau gan staff yn cael eu herio'n llwyddiannus yn y llysoedd. Felly, cynghorir

ysgolion yn gryf i ddilyn yr arweiniad ond ni ddylai gael ei drin fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Mae dehongli'r gyfraith yn fater i'r llysoedd.

- 1.11** Dylai'r arweiniad gael ei ystyried yng nghyd-destun ehangach Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol.

## **2 Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud**

Disodlodd Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 Adran 550A Deddf Addysg 1996 ac mae'n galluogi staff ysgolion i ddefnyddio'r grym hynny sy'n rhesymol dan yr amgylchiadau i atal disgybl rhag gwneud, neu barhau i wneud, unrhyw un o'r canlynol:

- cyflawni unrhyw drosedd (neu, i ddisgybl o dan oedran cyfrifoldeb troseddol, yr hyn a fyddai'n drosedd i ddisgybl hŷn);
- achosi anaf personol i unrhyw berson (gan gynnwys y disgybl ei hun), neu ddifrod i'w eiddo; neu
- beryglu trefn a disgyblaeth dda yn yr ysgol neu ymhlith unrhyw ddisgyblion sy'n derbyn addysg yn yr ysgol, naill ai yn ystod sesiwn addysgu neu fel arall. Ceir diffiniad o'r staff y mae'r pŵer hwn yn berthnasol iddynt yn adran 95 y Ddeddf. Y rhain yw:
- unrhyw athro sy'n gweithio yn yr ysgol, ac unrhyw berson arall sydd wedi derbyn awdurdod gan y pennaeth i reoli disgyblion neu fod yn gyfrifol amdanynt:
  - mae hyn yn cynnwys staff cymorth sydd â dyletswyddau arferol o oruchwylio disgyblion megis cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr cynnal/cymorth dysgu, mentoriaid dysgu a goruchwylwyr amser cinio;
  - gall hefyd gynnwys pobl y mae'r pennaeth wedi rhoi awdurdod dros dro iddynt reoli disgyblion neu fod yn gyfrifol amdanynt megis aelodau o staff cyflogedig nad yw eu swydd yn cynnwys goruchwylio disgyblion fel arfer (er enghraifft staff arlwygo neu staff sy'n gysylltiedig â'r eiddo) a gwirfoddolwyr di-dâl (er enghraifft, rhieni sy'n hebrwng disgyblion ar ymweliadau a drefnwyd gan yr ysgol); ac nid yw'n cynnwys swyddogion.

Mae'n rhaid i'r rhai sy'n defnyddio'r pŵer i ddefnyddio grym roi ystyriaeth briodol hefyd i unrhyw angen addysgol arbennig (AAA) a/neu anabledd a allai fod gan ddisgybl. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan ysgolion ddyletswyddau allweddol:

- i beidio â thrin disgybl anabl yn llai ffafriol, oherwydd ei anabledd, na disgybl heb anabledd;
- i beidio â thrin disgybl anabl yn anffafriol, am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd, heb gyfiawnhad; ac
- i beidio â gweithredu darpariaeth, maen prawf, neu arfer sy'n rhoi, neu a fyddai'n rhoi, disgybl anabl o dan anfantais benodol, o gymharu â disgybl heb anabledd, heb gyfiawnhad; ac
- i gymryd camau rhesymol i osgoi rhoi disgybl anabl o dan anfantais sylweddol o gymharu â disgybl heb anabledd (a elwir yn ddyletswydd addasiadau rhesymol).

- 2.1** Gellir defnyddio'r pŵer pan fydd y disgybl (gan gynnwys disgybl o ysgol arall) ar dir yr ysgol neu leoliad arall sydd o dan reolaeth neu ofal cyfreithlon yr aelod o staff (er enghraifft ar ymweliad ysgol).
- 2.2** Nid oes unrhyw ddiffiniad cyfreithiol o ba bryd y mae'n rhesymol i ddefnyddio grym. Bydd hynny bob amser yn dibynnu ar amgylchiadau penodol achosion unigol. I gael ei ystyried yn gyfreithlon, byddai'n rhaid i'r grym fod yn gymesur â'r canlyniadau y mae'n ceisio eu hosgoi. Dylai graddau'r grym fod y lefel isaf sydd ei hangen i gyflawni'r canlyniad a ddymunir. Ni fyddai'n bosibl cyfiawnhau defnyddio grym i atal camymddwyn dibwys. Fodd bynnag, mae penderfynu p'un a yw'r camymddwyn yn ddibwys yn dibynnu ar yr amgylchiadau hefyd. Er enghraifft, efallai y bydd rhedeg mewn coridor prysur gyda phlant bach lle ceir perygl gwirioneddol o'u taro i mewn i'r waliau neu i lawr grisiau yn ddigon difrifol i beidio â chael ei ystyried yn ddibwys.
- 2.3** Mae'r pŵer statudol a roddir gan Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn bŵer ychwanegol i bŵer cyfraith gwlad unrhyw ddinesydd mewn argyfwng i ddefnyddio grym rhesymol i amddiffyn ei hun, i atal person arall rhag cael ei anafu neu gyflawni trosedd. O ran atal anaf neu ddifrod i eiddo, mae cwmpas y pŵer statudol yn debyg i gwmpas pŵer cyfraith gwlad, ac eithrio ei fod ond ar gael i bobl sydd wedi'u hawdurdodi i reoli disgyblion neu fod yn gyfrifol amdanynt.
- 2.4** O ran atal mathau eraill o droseddau, mae Adran 93 yn darparu eglurhad hollbwysig. Nid yw'n glir o gwbl a yw'r holl fathau o ymddygiad sy'n peryglu disgyblaeth ysgol yn droseddau hefyd ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cynradd o dan oedran cyfrifoldeb troseddol. Felly, mae Adran 93 yn datgan yn glir y gall staff awdurdodedig ddefnyddio grym i atal ymddygiad sy'n peryglu'r gwaith o gynnal disgyblaeth yn yr ysgol p'un a yw'r ymddygiad hwnnw hefyd yn cael ei ystyried yn drosedd ai peidio.
- 2.5** Gellir defnyddio grym rhesymol hefyd wrth arfer y pŵer statudol, a gyflwynwyd o dan Adran 45 Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006, i chwilio disgyblion am arfau heb eu caniatâd. Byddai'r pŵer chwilio hwn yn berthnasol i benaethiaid a staff sydd wedi'u hawdurdodi ganddynt, pan fydd ganddynt resymau rhesymol dros amau bod gan ddisgybl arf. Gallai'r sawl sy'n chwilio a/neu'r ail berson y mae angen iddynt fod yn bresennol mewn chwiliad ddefnyddio grym rhesymol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cynghori ysgolion yn gryf i beidio â chwilio disgyblion pan fyddant yn disgwyl gwrthwynebiad; dylent ffonio'r heddlu yn hytrach.
- 2.6** **Mae bob amser yn anghyfreithlon defnyddio grym fel cosb.** Y rheswm am hyn yw y byddai'n cael ei gynnwys o fewn y diffiniad o gosb gorfforol, a ddiddymwyd gan Adran 548 Deddf Addysg 1996. Dylai defnyddio grym fod yn weithred o ofal a rheolaeth, nid cosb. Mae'n anghyfreithlon defnyddio cyswllt personol ar unrhyw raddfa sydd â'r bwriad penodol o gosbi plentyn neu berson ifanc neu sydd â'r bwriad i achosi poen, anaf neu gywilydd.



### 3 Cyfrifoldebau Ysgolion

#### Polisi a gweithdrefnau

- 3.1** Mae'r Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes yn disgwyl i ysgolion a lleoliadau addysgol eraill gael polisiâu hygyrch ar y defnydd o rym rhesymol ac ar reoli ymddygiad y mae staff yn ymwybodol ohonynt ac yn cyfeirio atynt pan fydd angen. Mae angen i bolisiâu a chynlluniau'r ysgol ystyried a nodi ymatebion brys a chynlluniedig pan allai defnyddio grym rhesymol fod yn angenrheidiol. Mae'n arfer da ymgynghori â llywodraethwyr, staff, undebau llafur cydnabyddedig, disgyblion a'r rhai â chyfrifoldeb rhiant ynglŷn â'r polisi ac i'r polisi gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Corff Llywodraethu a bod y staff, y disgyblion a'r rhieni yn gwybod amdano naill ai fel rhan o bolisi ymddygiad yr ysgol neu ar wahân.
- 3.2** Gan mai aelodau unigol o staff fyddai'n meddu ar y pŵer statudol i ddefnyddio grym, ni ddylai fod gan unrhyw ysgol bolisi 'dim cyswllt corfforol' oherwydd byddai hyn yn gwneud i'r aelodau staff deimlo eu bod wedi'u hamddifadu o'r pŵer hwnnw neu'n atal eu defnydd ohono.
- 3.3** Mae diogelwch bob amser o'r pwys mwyaf ac, felly, nid oes gofyn i staff ddefnyddio neu cânt eu cynghori i beidio â defnyddio grym rhesymol os yw'n debygol o beryglu eu diogelwch eu hunain neu ddiogelwch eraill.
- 3.4** Byddai'n synhwyrol i bolisi ysgol ar ddefnyddio grym ddisgrifio'r amgylchiadau lle bydd ysgol yn credu bod cyfiawnhad dros ddefnyddio grym i atal disgybl (er enghraifft, er mwyn eu hatal rhag anafu rhywun) a'r mathau hynny o amgylchiadau lle bydd ysgol yn credu bod cyfiawnhad dros ddefnyddio grym er mwyn gorfodi disgybl i gydymffurfio â chyfarwyddyd rhesymol (er enghraifft, i adael yr ystafell ddosbarth). Mae angen i bob aelod o staff – boed yn awdurdodedig neu'n anawdurdodedig – ddeall eu pwerau a'r opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae angen iddynt wybod beth sy'n dderbyniol a beth sy'n annerbyniol. Yn yr un modd, dylai pob disgybl fod yn ymwybodol o'r pwerau sydd ar gael i staff yr ysgol, a'r amgylchiadau lle gallant eu defnyddio.
- 3.5 Pa fath o ymyriad corfforol cyfyngol a all gael ei ddefnyddio ac na all gael ei ddefnyddio?**

Dylai unrhyw ddefnydd o ymyriad corfforol cyfyngol fod yn gyson â'r egwyddor grym rhesymol. Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cyflwyno cyfres o ganllawiau i staff ar sut i ddefnyddio ymyriad corfforol mewn argyfwng (Atodiad 6). Pan fydd asesiad risg yn awgrymu bod ymddygiad myfyriwr unigol yn debygol o ofyn am reolaeth gorfforol, dylai ysgolion sicrhau bod staff dynodedig wedi cael hyfforddiant priodol. Mae gan y Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes, drwy'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad, gronfa o athrawon a chynorthwywyr cynnal ymddygiad sydd wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio model Team-Teach. Mae Team-Teach yn ddarparwr hyfforddiant achrededig yng Nghynllun Hyfforddi Ymyriadau Corfforol Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain (BILD). Caiff ysgolion eu cynghori'n gryf i geisio hyfforddiant yn ôl model Team-Teach ac yn ôl y model hyfforddiant a ddarperir gan RhCT. Pan fyddant yn dewis peidio â gwneud hynny, rhaid iddynt sicrhau bod unrhyw ddarparwr hyfforddiant amgen wedi'i achredu gan BILD.

- 3.6** Dylai polisi ysgol ar ddefnyddio grym fod yn gyson â'i pholisi ymddygiad ond nid o reidrwydd yn rhan ohono. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar hybu polisiâu ymddygiad cadarnhaol ac ymddygiad ysgol ar gael yng Nghylchlythyr 47/2006, Cynnwys a Chefnogi Disgyblion. Dylai hefyd fod yn gyson â pholisiâu'r ysgol ar ddiogelu plant ac iechyd a diogelwch.

Dylai polisi ysgol ar ddefnyddio grym ddisgrifio enghreifftiau:

- o'r gwahanol ddulliau y dylid eu defnyddio cyn defnyddio grym;
- o'r amgylchiadau lle bydd yr ysgol yn ystyried bod y defnydd o rym i atal disgybl yn rhesymol (er enghraifft, er mwyn eu hatal rhag anafu rhywun); ac
- o'r amgylchiadau y bydd ysgol yn credu sy'n cyfiawnhau'r defnydd o rym er mwyn gwneud i ddisgybl gydymffurfio.

- 3.7** Mae **Atodiad 1** yn awgrymu fframwaith ar gyfer polisi a allai fod yn ddefnyddiol i ysgolion, gan gynnwys rhestr o bynciau y gallai'r polisi eu cwmpasu.

**3.8 Lleihau'r tebygolrwydd o sefyllfaoedd yn codi lle gallai fod angen defnyddio grym**

Er na fydd mesurau ataliol bob amser yn gweithio, mae yna nifer o gamau y gall ysgolion eu cymryd i helpu lleihau'r tebygolrwydd y bydd sefyllfaoedd yn codi lle gallai fod angen arfer y pŵer i ddefnyddio grym:

- creu amgylchedd tawel, disgybledig a chefnogol yn yr ysgol sy'n lleihau'r risg a'r bygythiad o drais o unrhyw fath;
- datblygu cydberthnasau effeithiol rhwng disgyblion a staff sy'n hanfodol i drefn dda;
- mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan ar gyfer datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol megis y rhaglen Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL);
- defnyddio dull strwythuredig ar gyfer datblygu staff sy'n helpu staff i ddatblygu sgiliau rheoli ymddygiad yn gadarnhaol; rheoli gwrthdaro a hefyd i gefnogi ei gilydd yn ystod digwyddiad ac ar ôl digwyddiad. Ceir canllawiau pellach yng Nghanllaw Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion Llywodraeth Cymru, Cylchlythyr 47/2006;
- rheoli digwyddiadau unigol yn effeithiol. Mae'n bwysig cyfathrebu'n dawel gyda'r disgybl, defnyddio geiriau ac iaith y corff nad ydynt yn fygythiol, a sicrhau y gall y disgybl weld ffordd allan o sefyllfa. Gallai strategaethau gynnwys, er enghraifft, mynd gyda'r aelod o staff i ystafell ddistaw, i ffwrdd o wylwyr neu ddisgyblion eraill, er mwyn i'r aelod o staff allu gwrandao ar bryderon; neu i aelod penodol arall o staff sy'n adnabyddus i'r disgybl ymuno â hwy; a
- lle bynnag y bo'n ymarferol, dylid rhybuddio'r disgybl y gellir defnyddio grym cyn ei ddefnyddio.

### 3.9 Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac/neu anabledau

Mae'r cyngor canlynol yn arbennig o berthnasol i ddisgyblion ag AAA ac/neu anabledau:

- Cynnwys y Cydlynnydd AAA neu aelod o staff arall a enwir a rhieni i ddatblygu polisi ac arfer yr ysgol ar ddefnyddio grym. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i anghenion disgyblion unigol ag AAA ac/neu anabledau gan gynnwys disgyblion "bregus".
- Datblygu cynlluniau rheoli ymddygiad ar gyfer disgyblion unigol yr aseswyd eu bod yn wynebu risg uwch o fod angen ymyriadau corfforol cyfyngol mewn ymgynghoriad â'r disgybl a'i rieni neu ei gynhalwyr (gofalwyr). Ceir cyngor pellach ar asesiadau risg ym mharagraffau 3.11 a 3.12, Atodiad 3 (Cynllun Ymdrin yn Gadarnhaol) ac yng nghanllawiau RhCT *Asesu a Rheoli Risgiau ar gyfer Plant sy'n Arddangos Ymddygiadau Heriol*. Mae cynlluniau rheoli ymddygiad yn cyflwyno'r technegau y dylid eu defnyddio a'r rhai na ddylid eu defnyddio fel arfer. Yn achos disgyblion sydd â datganiad o AAA, dylai unrhyw ddefnydd posibl o ymyriad corfforol a fwriedir gydymffurfio â datganiad disgybl a chael ei gofnodi'n briodol yng nghofnodion yr ysgol.
- I'r graddau y bo'n ymarferol bosibl, dylai staff sy'n cael cyswllt â disgyblion o'r fath gael gwybod am nodweddion perthnasol yr unigolion hynny, yn arbennig:
  - sefyllfaoedd a allai ysgogi ymddygiad anodd, strategaethau ataliol a pha dechnegau atal rhag gwaethygu sy'n fwyaf tebygol o weithio;
  - beth sy'n fwyaf tebygol o ysgogi ymateb treisgar, gan gynnwys gwybodaeth berthnasol am unrhyw ddigwyddiad blaenorol lle bu'n rhaid defnyddio ymyriad corfforol; ac
  - os bydd angen ymyriad corfforol, unrhyw strategaethau a thechnegau penodol y cytunwyd arnynt gyda'r staff, y rhieni a'r disgybl dan sylw.
- Gallai gwybodaeth gan rieni fod yr un mor werthfawr â gwybodaeth sydd gan yr ysgol. Gallai rhywfaint o'r wybodaeth hon fod yn sensitif. Dylai ysgolion geisio sicrhau caniatâd ysgrifenedig gan y rhiant i hysbysu staff priodol. Fodd bynnag, os bydd caniatâd yn cael ei atal yn afresymol, gellir rhoi'r wybodaeth i staff sydd ei hangen o hyd os yw hyn er budd y disgybl dan sylw. Bydd pwysigrwydd darparu gwybodaeth o'r fath yn ffactor mewn penderfyniadau ynglŷn â rhoi awdurdod dros dro i rieni sy'n wirfoddolwyr ac eraill sy'n goruchwyllo disgyblion.
- Dylid penodi staff i'w galw os bydd digwyddiadau sy'n gysylltiedig â disgyblion penodol yn digwydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu aros iddynt gyrraedd cyn gweithredu os bydd angen gweithredu ar frys. Fodd bynnag, dylid eu cynnwys bob amser yn y camau yn dilyn digwyddiadau. Dylid ystyried hefyd a oes yna amgylchiadau penodol lle bydd angen i staff weithio mewn parau i ddiogelu disgyblion a/neu staff.
- Dylid addysgu disgyblion sy'n wynebu risg ynghylch sut i gyfathrebu mewn adegau o argyfwng a strategaethau i'w defnyddio mewn argyfwng (megis defnyddio pasbortau cyfathrebu personol ac arwyddion nad ydynt yn rhai llafar i ddangos yr angen i ddefnyddio ardal dawel benodol neu ardal dawelu) a sicrhau bod staff yn gyfarwydd â'r strategaethau hyn.

### **3.10 Sicrhau bod staff yn gwybod pwy sydd â phŵer statudol i ddefnyddio grym**

Cynghorir y pennaeth neu uwch aelod o staff dirprwyedig i wneud y canlynol:

- Fel rhan o broses sefydlu, hysbysu'r bobl dan sylw yn benodol o'u cyfrifoldebau mewn cysylltiad â pholisi'r ysgol ar ddefnyddio grym. Dylai egluro bod pob athro a staff sydd wedi'u hawdurdodi gan y pennaeth i reoli neu i fod yn gyfrifol am ddisgyblion yn derbyn pŵer statudol yn awtomatig i ddefnyddio grym.
- O ran staff sydd ag awdurdod dros dro, dylai egluro'r amgylchiadau lle bydd staff nad yw eu swyddi fel arfer yn cynnwys goruchwyllo disgyblion, a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda disgyblion, yn derbyn awdurdod i reoli neu i fod yn gyfrifol am ddisgyblion ac y bydd ganddynt felly'r pŵer statudol i ddefnyddio grym.
- Cadw cofnod cyfredol o'r bobl sydd ag awdurdod dros dro a sicrhau bod staff ag awdurdod parhaol (h.y. pob aelod o staff sy'n goruchwyllo disgyblion) yn gwybod pwy ydynt. O ystyried y gofyniad ar ysgolion i gynnal cofnod canolog a chyfredol o statws y Swyddfa Cofnodion Troseddol o bob aelod o staff a gwirfoddolwr, efallai y byddant yn dymuno paru'r ddwy set o gofnodion.

### **3.11 Penderfynu p'un a fyddai defnyddio grym yn briodol**

Dylai'r penderfyniad i ddefnyddio grym ai peidio a pha rym y dylid ei ddefnyddio ddibynnu bob amser ar amgylchiadau pob achos ac – yn hollbwysig yn achos disgyblion ag AAA ac/neu anabledau – gwybodaeth am yr unigolyn dan sylw.

Mae'n rhaid i'r penderfyniadau a wneir ynghylch a yw union amgylchiadau digwyddiad yn cyfiawnhau defnyddio grym sylweddol fod yn rhesymol. Fel arfer, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau o'r fath yn gyflym, heb lawer o amser i bwysu a meddwl. Er hynny, mae angen i staff wneud y penderfyniadau cliraf posibl ynglŷn â:

- difrifoldeb y digwyddiad, wedi'i asesu gan effaith yr anaf, difrod neu anrhefn sy'n debygol o ddigwydd pe na fyddai grym yn cael ei ddefnyddio. Os bydd posibilrwydd cryf o anaf, difrod neu anhrefn ddifrifol, y mwyaf tebygol y gellir cyfiawnhau defnyddio grym;
- y tebygolrwydd o gyflawni'r canlyniad a ddymunir drwy ddulliau eraill. Po isaf y tebygolrwydd o gyflawni'r canlyniad a ddymunir drwy ddulliau eraill, mwyaf tebygol y gellir cyfiawnhau defnyddio grym; ac
- y risgiau perthynol sy'n gysylltiedig ag ymyriad corfforol o gymharu â defnyddio strategaethau eraill. Po leiaf yw'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymyriad corfforol o gymharu â strategaethau eraill, y mwyaf tebygol y gellir cyfiawnhau defnyddio grym.

### **Asesiadau risg**

3.12 Cynghorir timau arwain i asesu amllder a difrifoldeb digwyddiadau sy'n galw am ddefnyddio grym sy'n debygol o ddigwydd yn eu hysgol. Mae patrymau hanesyddol fel arfer yn darparu man cychwyn da. Bydd yr asesiadau hyn yn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch hyfforddiant staff (Gweler Adran 4). Dylai asesiad risg gorffenedig ddylanwadu ar ymatebion arfaethedig i ymddygiad heriol. Dylai asesiadau

risg o ymddygiad heriol ddweud a oes angen hyfforddiant penodol yn gysylltiedig â defnyddio grym rhesymol i reoli neu atal disgyblion. Mae'r Awdurdod yn cynnig hyfforddiant o'r fath gan ddefnyddio model Team-Teach.

3.13 Efallai y bydd angen i ysgolion gynnal asesiadau risg unigol hefyd (Atodiad 4) pan fydd yn hysbys y bydd grym yn fwy tebygol o fod yn angenrheidiol er mwyn atal disgybl penodol, megis disgybl y mae ei AAA ac/neu ei anabledd yn gysylltiedig ag ymddygiad eithafol. Mae asesiad risg unigol hefyd yn hollbwysig i ddisgyblion y mae eu AAA ac/neu eu hanableddau yn gysylltiedig â:

- namau cyfathrebu sy'n eu gwneud yn llai ymatebol i gyfathrebu llafar;
- anableddau corfforol a/neu nam ar y synhwyrau; cyflyrau sy'n eu gwneud yn fregus, megis hemoffilia, syndrom esgyrn brau neu epilepsi; neu
- ddibyniaeth ar offer megis cadeiriau olwyn, tiwbiau anadlu neu diwbiau bwydo.

### **Sefyllfaoedd pan na ddylai staff ymyrryd fel arfer heb gymorth**

3.14 Ni ddylai aelod o staff awdurdodedig ymyrryd mewn digwyddiad heb gymorth, oni fydd yn argyfwng. Dylai ysgolion fod â systemau cyfathrebu sy'n galluogi aelod o staff i alw am gymorth brys pan fydd angen. Efallai y bydd angen help i ddelio â sefyllfa sy'n cynnwys disgybl hŷn neu ddisgybl sy'n gryfach yn gorfforol, disgybl mawr, mwy nag un disgybl neu os bydd yr aelod o staff awdurdodedig yn credu y gallai fod mewn perygl o gael ei anafu. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai gymryd camau i symud disgyblion eraill a allai fod mewn perygl a galw am gymorth gan staff awdurdodedig eraill, neu ffonio'r heddlu os bydd angen.

### **Defnyddio grym**

3.15 Cyn defnyddio grym, dylai staff, pan fydd yn bosibl, ddweud wrth y disgybl am roi'r gorau i gamymddwyn a chyfathrebu mewn ffordd dawel a phwyllog drwy'r digwyddiad cyfan. Ni ddylai staff weithredu oherwydd dicter neu rwystredigaeth, neu er mwyn cosbi disgybl, a dylent esbonio'n glir y bydd cyswllt corfforol neu ataliaeth yn dod i ben cyn gynted ag y bydd yr angen amdano yn dod i ben.

3.16 Gallai'r mathau o rym a ddefnyddir gynnwys:

- cyswllt corfforol goddefol o ganlyniad i sefyll rhwng disgyblion neu rwystro llwybr disgybl;
- cyswllt corfforol gweithredol megis:
  - gafael yn llaw neu fraich disgybl i'w arwain;
  - tywys disgybl i ffwrdd drwy roi llaw yng nghanol y cefn;
  - mewn amgylchiadau mwy eithafol, defnyddio dulliau gafael cyfyngol priodol sy'n gofyn am arbenigedd neu hyfforddiant penodol

- 3.17** Pan fydd risg uchel ac uniongyrchol o farwolaeth neu anaf difrifol, gallai unrhyw aelod o staff gyfiawnhau cymryd unrhyw gamau angenrheidiol (sy'n gyson â'r egwyddor o geisio defnyddio'r grym lleiaf posibl sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r canlyniad a ddymunir). Gallai sefyllfaoedd o'r fath gynnwys atal disgybl rhag rhedeg oddi ar y palmant i ffordd brysur neu atal disgybl rhag taro rhywun â gwrthrych peryglus megis potel wydr neu forthwyl.
- 3.18** Dylai staff wneud pob ymdrech i osgoi gweithredu mewn ffordd y gellid disgwyl yn rhesymol y bydd hynny'n achosi anaf. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau mwyaf eithafol, efallai na fydd bob amser yn bosibl osgoi anafu disgybl.
- 3.19** Dylai staff bob amser osgoi cyffwrdd neu atal disgybl mewn ffordd y gellid ei dehongli'n ymddygiad rhywiol amhriodol.

## **4 Hyfforddiant Staff**

- 4.1** Yn unol â mathau eraill o ddatblygiad proffesiynol, ysgolion unigol ddylai wneud penderfyniadau ynglŷn â hyfforddiant mewn ymyriadau corfforol yn ôl eu hanghenion a'u hamgylchiadau arbennig hwy. Mae'n arfer da i ysgolion gyflwyno eu hymagwedd at hyfforddiant perthnasol ym mholisi eu hysgol ar ddefnyddio grym. Gall ysgol benderfynu y dylai pob aelod o staff sy'n goruchwyllo disgyblion gael hyfforddiant o'r fath. Fodd bynnag, mae gan unigolion bŵer statudol i ddefnyddio grym yn rhinwedd eu swydd. Felly, ni all polisi ysgol atal yn gyfreithlon athrawon neu aelodau eraill o staff y mae eu swydd yn cynnwys rheoli neu fod yn gyfrifol am ddisgyblion rhag defnyddio'r pŵer hwnnw p'un a ydynt wedi derbyn hyfforddiant ai peidio. Serch hynny, dylai ysgolion egluro i staff y gallai defnyddio grym afresymol neu anaddas arwain at gamau disgyblu.
- 4.2** Bydd rhaid i ysgolion, hefyd, wneud penderfyniad ar lefel a ffurf yr hyfforddiant y maent yn ei roi i'r rhai sydd ag awdurdod dros dro, gan nad ydynt yn gyfrifol am reoli disgyblion fel arfer.
- 4.3** Fel y nodir isod, bydd gan staff sy'n gweithio'n agos gyda disgyblion ag AAA ac/neu anableddau anghenion hyfforddiant penodol. Bydd asesiadau risg (gweler paragraffau 3.12 a 3.13 uchod) yn helpu i lywio penderfyniadau ar hyfforddiant staff. Byddant hefyd yn llywio'r amgylchiadau lle gall ysgolion roi awdurdod dros dro i staff neu wirfoddolwyr reoli disgyblion neu fod yn gyfrifol amdanynt.
- 4.4** Cynghorir ysgolion i sicrhau bod hyfforddiant yn cwmpasu technegau i osgoi neu dawelu sefyllfaoedd lle bydd angen ymyriad corfforol o bosibl yn ogystal â dulliau ymyriad corfforol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i staff sy'n gweithio'n agos â disgyblion ag AAA ac/neu anableddau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad heriol. Dylai ysgolion sicrhau bod anghenion hyfforddiant y staff hyn yn cael eu nodi a'u diwallu'n briodol.

## 5 Cofnodi a Rhoi gwybod am Ddigwyddiadau

**5.1 Mae'n ofynnol i ysgolion gynnal cofnodion systematig (sy'n cael eu galw'n gyffredin yn "llyfr rhwymedig") o bob digwyddiad arwyddocaol pan ddefnyddiwyd grym, yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r ysgol ar ddefnyddio grym a'i gofynion diogelu plant.** Diben cofnodi yw sicrhau bod canllawiau polisi'n cael eu dilyn, hysbysu rhieni, llywio cynllunio at y dyfodol fel rhan o brosesau gwella ysgol, atal camddeall neu gamddehongli'r digwyddiad a darparu cofnod ar gyfer unrhyw ymholiad yn y dyfodol. **Rhaid cofnodi'r defnydd o rym rhesymol i reoli neu atal disgyblion yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r daflen gofnodi (Atodiad 3) o fewn 24 awr.** Dylid cofnodi rhif y digwyddiad yn y llyfr rhwymedig ar daflen gofnodi'r digwyddiad.

**Dylid anfon copi o'r daflen i'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad o fewn wythnos.** Dylai'r pennaeth hefyd gael gwybod am unrhyw ymyriad corfforol cyfyngol. Dylai'r cofnodion gael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo yn swyddfa'r pennaeth/yr ysgol a dylai'r holl staff allu cael ato. Yn achos Plant â Ffeiliau Diogelu, dylai taflen y digwyddiad gael ei chadw yn y Ffeil Diogelu.

Mae arfer da yn mynnu y dylai rhieni gael gwybod os defnyddiwyd ymyriad corfforol cyfyngol ar eu plentyn. Lle bynnag y bo'n bosibl, y peth gorau i'w wneud yw ffonio rhieni cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad cyn cadarnhau manylion yn ysgrifenedig. Mae'n arfer da hefyd i rieni gael copi o bolisi'r ysgol ar ddefnyddio grym a gwybodaeth am gymorth ar ôl y digwyddiad.

Mae'n arfer da i lywodraethwyr fonitro digwyddiadau lle defnyddiwyd grym. Mae gan benaethiaid rôl bwysig mewn rhoi gwybod i'r Corff Llywodraethu am ddigwyddiadau o'r fath. Dylai ysgolion gael aelod o staff ac aelod o'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am fonitro, dadansoddi ac ymateb i'r defnydd o rym rhesymol i reoli neu atal disgyblion yn eu hysgol. Hefyd, mae'r awdurdod lleol yn monitro ac yn dadansoddi'r defnydd o rym rhesymol yn ysgolion RhCT.

**5.2** Gall y cwestiynau canlynol fod o gymorth i ysgolion wrth benderfynu a yw digwyddiad yn arwyddocaol ac a oes angen cofnod ysgrifenedig ohono:

- A achosodd y digwyddiad anaf neu ofid i ddisgybl neu aelod o staff?
- Er nad oedd unrhyw anaf neu ofid amlwg, a oedd y digwyddiad yn ddigon difrifol yn ei rinwedd ei hun i alw am gofnod ysgrifenedig?
- Byddai unrhyw ddefnydd o ddulliau cyfyngol, er enghraifft, yn cael ei gynnwys yn y categori hwn.
- A oes angen cofnod ysgrifenedig i allu cyfiawnhau'r defnydd o rym? Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo ffin denau rhwng y penderfyniad i ddefnyddio grym ai peidio.
- A oes angen cofnod i helpu i nodi a dadansoddi patrymau o ran ymddygiad disgyblion neu anghenion hyfforddiant staff?
- A oedd asiantaethau eraill yn gysylltiedig â'r digwyddiad, er enghraifft yr heddlu?

- 5.3** Os yw'r ateb yn gadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, fe'ch cynghorir yn gryf i wneud cofnod ysgrifenedig. Gall cofnodion o'r fath ddarparu tystiolaeth o benderfyniadau amddiffynadwy rhag ofn y gwneir cwyn neu y cynhelir ymchwiliad yn ddiweddarach. Mae'n bosibl na ellir cofnodi pob manylyn am ddiwyddiad os nad yw'n hysbys ar bwy y defnyddiwyd grym, er enghraifft pan fydd aelod o staff wedi gorfod gwahanu nifer o ddisgyblion sy'n amgylchynu ymladdfa yn frysiog. Efallai y bydd yr aelod o staff (yn ddealladwy) yn canolbwyntio ar, ac yn cofio, pwy oedd y disgyblion a oedd yn ymladd ac nid y gwylwyr unigol a oedd wedi'u symud i'r ochr er mwyn ei alluogi i gyrraedd y rhai a oedd yn ymladd. Gallai fod yn ddefnyddiol i staff ofyn am gyngor uwch-gydweithiwr neu gynrychiolydd eu cymdeithas broffesiynol wrth ysgrifennu adroddiad.
- 5.4** Efallai y bydd y ffurflen gofnodi enghreifftiol yn **Atodiad 3** yn ddefnyddiol i ysgolion. Mae'r ffurflen hon yn nodi'r mathau o wybodaeth y dylid ei chofnodi.
- 5.5** Yr aelod o staff a oedd yn gysylltiedig â digwyddiad sydd fel arfer yn y sefyllfa orau i lunio'r cofnod. Byddai'n arfer da i'r aelod o staff sy'n bennaf gyfrifol am ddiogelu fwrw golwg dros y cofnod a dylai'r ysgol roi copi o'r fersiwn derfynol i'r aelod o staff a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Gallai hyfforddiant staff ddarparu arfer da ar gwblhau cofnodion o ddiwyddiadau.
- 5.6** Dylai pob fersiwn wahanol a roddir o'r un digwyddiad gael ei chofnodi. Nid yw bob amser yn ddoeth rhoi copi o'r cofnod o'r digwyddiad i'r rhieni fel rheol, ond dylid rhoi gwybod i'r rhieni pryd a lle y digwyddodd y digwyddiad, pa aelodau o staff a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r digwyddiad (gan gelu enwau pan fydd angen), pam y daethon nhw o'r penderfyniad bod angen defnyddio grym, pa rym a ddefnyddiwyd, a oedd yna unrhyw anafiadau a pha gamau dilynol a gymerwyd (cymorth a/neu ddisgyblu) mewn cysylltiad â'u plentyn. Byddai'n ddoeth pe bai polisi'r ysgol ar wneud cofnod yn dilyn digwyddiadau o'r fath yn cael ei gynnwys yn ei pholisi ar ddefnyddio grym, a dylid hysbysu aelodau o staff, rhieni a disgyblion am hyn, os nad yw'r unigolion hyn yn ymwybodol o'r polisi.
- 5.7** Mae'r cofnod yn debygol o lunio rhan o gofnod addysgol y disgybl ac mae'n gofnod o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu (ei sicrhau, ei chofnodi a'i chadw) gan neu ar ran Corff Llywodraethu'r ysgol (neu athro yn yr ysgol, ac eithrio ar gyfer defnydd personol), mae'n ymwneud â'r disgybl, ac roedd yn deillio gan athro neu cafodd ei gyflenwi gan athro wedi'i gyflogi gan y Corff Llywodraethu neu'r awdurdod lleol.
- 5.8** Hyd yn oed os na chafodd copi o'r cofnod o'r digwyddiad ei ddarparu gan yr ysgol fel y crybwyllwyd uchod, byddai gan y rhiant hawl i weld y cofnod addysgol am ddim, cyn pen 15 diwrnod ysgol o dderbyn cais ysgrifenedig y rhiant. Os bydd rhiant yn gwneud cais ysgrifenedig am gopi o'r cofnod mae'n rhaid darparu hwn, hefyd cyn pen 15 diwrnod ysgol o dderbyn y cais.
- 5.9** Pan fydd ysgolion yn cydymffurfio â chais i weld neu i dderbyn copi o gofnod addysgol disgybl, mae yna rai mathau o wybodaeth na ddylid eu datgelu, sef unrhyw wybodaeth na ellir ei rhoi'n gyfreithlon i'r plentyn o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, neu na fyddai ganddo hawl i'w chael o dan y Ddeddf neu yn rhinwedd unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 30(2) neu adran 38(1) y Ddeddf honno. Mae manylion pellach ar y data sydd mewn cofnodion addysgol y gellir eu datgelu wedi'u cynnwys yng nghanllaw Llywodraeth Cymru ar Gofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin – cadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo gwybodaeth am



ddisgyblion, Cylchlythyr 18/2006. Wrth gofnodi digwyddiadau o'r fath, dylai staff gofio, os bydd yr wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo'n ddiweddarach i'r heddlu, y gallai gael ei chynnwys mewn datgeliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Dylai ysgolion gadw cofnodion am ddigwyddiadau o'r fath nes y bydd yr aelod o staff dan sylw wedi cyrraedd oedran ymdeol arferol neu am 10 mlynedd o ddyddiad yr honiad os bydd hynny'n hwy.

- 5.10** Dylid cofnodi pob anaf yn unol â gweithdrefnau'r ysgol. Dylai'r ysgol gymryd camau i adrodd ar anafiadau perthnasol i staff neu ddisgyblion i Ganolfan Gyswllt Digwyddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch [www.hse.gov.uk/riddor/index.htm](http://www.hse.gov.uk/riddor/index.htm).
- 5.11** Efallai y bydd aelodau o staff y mae disgybl wedi ymosod arnynt yn dymuno ystyried hysbysu'r heddlu.

## **6 Cefnogi ac adolygu**

- 6.1** Mae bod yn rhan o ymyriad corfforol yn gallu bod yn annifyr i bawb, boed y myfyriwr sy'n cael ei ddal, y sawl sy'n dal, neu rywun arall sy'n gweld neu'n clywed am yr hyn sydd wedi digwydd. Mae'n bwysig sicrhau bod staff a disgyblion yn cael cymorth emosiynol. Dylid cynnig cyfle i bawb a oedd yn rhan o'r ymyriad siarad am eu teimladau a chofnodi'r rhain. Mae'r Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes yn disgwyl bod pawb sy'n gysylltiedig â defnyddio grym rhesymol, gan gynnwys y bobl ifanc eu hunain ac arsylwyr, yn cael y cyfle i drafod yn dilyn y digwyddiad. Mae'n bwysig o hyd bod staff a phlant yn cael cyfle i fyfyrion ar y digwyddiad i ystyried sut gallai'r rheolaeth arno fod wedi bod yn wahanol gan felly lywio asesiadau risg yn y dyfodol o ddigwyddiad o'r fath.
- 6.2** Hefyd, gellir defnyddio'r llythyr at rieni yn eu hysbysu ynglŷn â'r defnydd o rym i'w cynnwys mewn trafodaeth am y digwyddiad a chyflwyno'r camau a'r cymorth dilynol. Mae'n arfer da i rieni fod yn rhan o'r broses o gytuno ar drefniadau cymorth priodol. Ar gyfer rhieni disgyblion y mae eu hymddygiad yn gysylltiedig ag AAA ac/neu anabledau, byddai'n ddoeth cytuno ar gynllun ymddygiad unigol. Byddai cynlluniau o'r fath yn cynnwys strategaethau i atal ymddygiad o'r fath rhag digwydd eto ac ymdrin ag unrhyw ymddygiad o'r fath eto a allai arwain at ddefnyddio grym.
- 6.3** Cyngorir ysgolion hefyd i:
- benderfynu a oes angen i bartneriaid aml-asiantaeth gymryd rhan ac, os felly, pa bartneriaid. Gallai'r rhain gynnwys gwasanaethau plant awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed neu'r tîm troseddau ieuencid (os yw'r plentyn eisoes yn cael ei oruchwylio ganddynt neu os yw wedi'i nodi gan y TTI fel rhywun sydd mewn perygl o arddangos ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol);
  - pan fydd y disgybl yn gyfrifol, dylech ei ddwyn i gyfrif fel ei fod yn cydnabod y niwed a achoswyd neu a allai fod wedi'i achosi. Yn ogystal â chosbi'r disgybl, gallai hyn roi'r cyfle iddo adfer y cydberthnasau gyda'r staff a'r disgyblion yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad ac/neu i ddatblygu ei sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Mewn rhai achosion, gall digwyddiad arwain at benderfyniad i wahardd disgybl. Dan yr amgylchiadau hyn mae'n rhaid i benaethiaid ystyried canllawiau

Llywodraeth Cymru ar Wahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, Cylchlythyr 1/2004;

- helpu'r disgybl a'r staff i ddatblygu strategaethau er mwyn osgoi argyfyngau o'r fath yn y dyfodol a rhoi gwybod i aelodau o staff perthnasol am y strategaethau hyn a'u swyddogaethau nhw;
- sicrhau bod rhieni a disgyblion yn ymwybodol o weithdrefnau cwyno'r ysgol; a
- sicrhau bod staff a disgyblion yr effeithir arnynt gan ddigwyddiad yn derbyn cymorth parhaus am ba hyd bynnag y bydd ei angen arnynt mewn cysylltiad â:
  - chanlyniadau corfforol;
  - cymorth i ymdrin ag unrhyw straen emosiynol neu golli hyder; a
  - chyfle i ddadansoddi, myfyrio a dysgu o'r digwyddiad.

## **7 Monitro**

- 7.1** Dylai ysgolion enwebu aelod o staff i weithio gydag aelod o'r corff llywodraethu i fonitro, dadansoddi a gweithredu'n briodol mewn ymateb i ddefnyddio ymyriad corfforol. Dylai dadansoddiad o'r fath ystyried materion cydraddoldeb gan gynnwys oedran, rhywedd, anabledd, diwylliant a chrefydd er mwyn gwneud yn siŵr nad oes gwahaniaethu posibl; dylai'r dadansoddiad hefyd ystyried materion amddiffyn plant posibl. Yn ogystal, dylai dadansoddiad ystyried tueddiadau yn y defnydd cymharol o ymyriad corfforol ar draws gwahanol aelodau staff (gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u hawdurdodi'n ffurfiol/heb eu hawdurdodi; a'r rhai sydd wedi'u hyfforddi/heb eu hyfforddi) ac ar draws adegau gwahanol o'r dydd neu leoliadau gwahanol. Dylai'r dadansoddiad hwn gael ei adrodd yn ôl i'r Corff Llywodraethu fel y gall camau pellach priodol gael eu cymryd a'u monitro.
- 7.2** Mae'r Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cynnal cronfa ddata o bob adroddiad am ymyriad corfforol yn ysgolion RhCT. Caiff y gronfa ddata hon ei harchwilio'n fisol am dueddiadau sy'n datblygu a chaiff ei rhannu gydag ysgolion yn flynyddol.

## **8 Pryderon a chwynion**

- 8.1** Mae defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol yn annifyr i bawb a gall arwain at bryderon, honiadau neu gŵynion ynghylch defnydd amhriodol neu ormodol. Yn benodol, gallai plentyn gwyno am ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol yng ngwres y funud ond yn sgil myfyrio ymhellach, bydd yn deall yn well pam y digwyddodd yr ymyriad. Mewn sefyllfaoedd eraill, gallai myfyrdod pellach arwain i'r plentyn deimlo'n gryf fod yr ymyriad corfforol cyfyngol yn amhriodol. Yn ogystal, efallai y bu'r ymyriad yn amhriodol yng nghyd-destun y digwyddiad. Dylai polisiâu ysgol gyflwyno'r gweithdrefnau y byddant yn eu defnyddio i helpu plant i adolygu eu cysylltiad ag ymyriad corfforol cyfyngol. Mae'n ofynnol bod gweithdrefn gwyno ar waith gan bob ysgol a'i bod ar gael i rieni.

**8.2** Nid yw presenoldeb marc neu glais yn awgrymu o reidrwydd bod grym gorfodol wedi'i ddefnyddio. Yn yr un modd, nid yw absenoldeb marc neu glais yn awgrymu o reidrwydd *na* ddefnyddiwyd grym gorfodol. Bydd angen i unrhyw ymchwiliadau ynghylch defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol ystyried y defnydd o rym rhesymol ac a ddilynwyd y gweithdrefnau cywir. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a oedd y defnydd o rym yn gymesur â'r amgylchiadau a sut cafodd y grym hwnnw ei ddefnyddio.

**8.3** Dylai polisïau ysgolion nodi'n glir y byddai'r ysgol yn cymryd unrhyw bryder, cwyn neu honiad o ddifrif, p'un a yw wedi'i fynegi ar lafar neu yn ysgrifenedig. Dylent hefyd ddweud yn glir y byddai'r ysgol yn cadw cofnodion ysgrifenedig o'r pryder, y gŵyn neu'r honiad, p'un ai a ddaeth gan blentyn, ofalwr neu staff, sut cynhaliwyd unrhyw ymholiadau a'r camau a gymerwyd i ymateb.

Mewn amgylchiadau o'r fath, y pennaeth ddylai ymateb i'r gŵyn yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r ysgol, oni wnaed y gŵyn yn erbyn y pennaeth ei hun. Gall rhieni ddewis apelio yn erbyn ymateb y pennaeth. Gellir galw panel o lywodraethwyr ynghyd ar yr adeg hon.

**8.4** Dylai cyfranogiad llawn y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant yn dilyn y digwyddiad leihau'r tebygolrwydd o gŵyn am y defnydd o rym ond ni fydd yn atal pob cwyn neu honiad. Gellir gwneud honiadau o ffynonellau amrywiol, ac nid dim ond gan y rhieni neu'r plant dan sylw.

**8.5** Gallai anghydfod arwain at honiad yn erbyn aelod o staff, a wneir i'r ysgol, i asiantaethau eraill neu hyd yn oed i'r heddlu. Dylid ymdrin â'r rhain yn unol â'r polisi a'r weithdrefn gytûn ar gyfer ymdrin â honiadau yn erbyn staff. Mae canllawiau ar gael i ysgolion ar ddiogelu plant ac ar ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill ym Mholisi a Gweithdrefnau Diogelu RhCT. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau yng Nghylchlythyr 05/2008 – Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002.

**8.6** Bydd polisi'r ysgol ar ymyriad corfforol a'r graddau y mae wedi'i ddilyn yn sail i unrhyw ymchwiliad o'r fath. Gellir ymchwilio i unrhyw gŵynion o'r fath o dan weithdrefn ddisgyblu'r ysgol hefyd.

## **9 Cyswllt corfforol â disgyblion o dan amgylchiadau eraill**

**9.1** Mae yna achlysuron pan fydd cyswllt corfforol â disgybl yn briodol neu'n angenrheidiol ar wahân i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Efallai y bydd angen rhywfaint o gyswllt corfforol i arddangos ymarferion neu dechnegau yn ystod gwersi addysg gorfforol, hyfforddiant chwaraeon neu grefft, dylunio a thechnoleg, neu os bydd yn rhaid i aelod o staff roi cymorth cyntaf. Efallai y bydd angen i athrawon ddarparu ysgogiadau neu help corfforol i blant ifanc a'r rhai ag AAA. Gallai cyffwrdd fod yn briodol hefyd pan fydd disgybl yn cael ei longyfarch neu ei ganmol, neu pan fydd y disgybl yn gofidio ac mae angen ei gysuro. Bydd athrawon yn defnyddio eu barn broffesiynol eu hunain pan fyddant yn credu bod angen y math hwn o gymorth ar ddisgybl.

**9.2** Efallai na fydd rhai disgyblion eisiau i unrhyw un gyffwrdd â nhw. Er enghraifft, gallai rhai disgyblion fod yn sensitif iawn i gyswllt corfforol oherwydd eu cefndir diwylliannol neu am eu bod wedi'u cam-drin. Mae'n bwysig bod staff a allai ddod i gysylltiad â'r disgyblion neu'r grwpiau o ddisgyblion hyn wedi derbyn y wybodaeth berthnasol a bod gan yr ysgol system ar gyfer eu hysbysu. Yn ogystal, bydd angen i'r ysgol ddatblygu arfer cyffredin clir tuag at grwpiau o ddisgyblion a digwyddiadau penodol. Dylid mabwysiadu ymagwedd gyffredin pan fydd y staff a disgyblion o rywiau gwahanol. Mae cyswllt corfforol gyda disgyblion yn fwy agored i'w gwestiynu wrth i ddisgyblion gyrraedd a mynd drwy'r glasoed, a dylai staff hefyd gofio y gall cyswllt corfforol diniwed a da ei fwriad hyd yn oed gael ei gamddechongli weithiau.

## **Polisiau Ysgolion – Fframwaith Awgrymedig**

Gall sefyllfaoedd sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau ynglŷn â defnyddio grym ai peidio ddigwydd mewn unrhyw ysgol. Gall defnyddio grym a phenderfynu peidio â defnyddio grym amlygu disgyblion a staff i risgiau sylweddol. Mae sefydlu polisi clir ar gyfer yr ysgol ar y defnydd o rym gan staff yn rhan bwysig o leihau'r risgiau hyn.

Mae angen i bob ysgol ddatblygu polisi sydd wedi'i deilwra ar gyfer ei hamgylchiadau penodol. Mae'n arfer da gwneud hynny mewn ymgynghoriad â llywodraethwyr, staff, rhieni a disgyblion. Efallai y bydd y fframwaith isod yn ddefnyddiol i ysgolion sy'n datblygu neu'n adolygu eu polisiau eu hunain.

## **Polisi Ysgol ar y Defnydd o Rym gan Staff i Reoli neu Atal Disgyblion**

### **Amcanion**

Gallai'r rhain gynnwys datganiadau ar:

- Amcan allweddol sicrhau diogelwch disgyblion a staff;
- Atal achosion difrifol o dorri disgyblaeth yr ysgol;
- Atal difrod difrifol i eiddo; ac
- Yr angen i ddiogelu hawliau plant a phobl ifanc.

### **Lleihau'r angen i ddefnyddio grym**

Gallai'r adran hon gynnwys deunydd ynglŷn â:

- Chreu amgylchedd tawel sy'n lleihau'r risg y bydd digwyddiadau'n codi lle gallai fod angen defnyddio grym;
- Defnyddio dulliau lles cymdeithasol ac emosiynol i addysgu disgyblion ynghylch sut i reoli gwrthdaro a theimladau cryf;
- Atal digwyddiadau rhag gwaethygu os byddant yn digwydd;
- Dim ond defnyddio grym pan fydd y risgiau o wneud hynny'n gwrthbwysu'r risgiau o beidio â defnyddio grym; ac
- Aseidiadau risg a chynlluniau ymdrin yn gadarnhaol ar gyfer disgyblion unigol.

### **Staff sydd ag awdurdod i ddefnyddio grym**

Gallai'r adran hon ymdrin ag awdurdod parhaol a thros dro.

- O ran awdurdod parhaol, gallai esbonio bod pob athro a staff sydd wedi'u hawdurdodi gan y pennaeth i reoli neu i fod yn gyfrifol am ddisgyblion yn derbyn pŵer statudol yn awtomatig i ddefnyddio grym a nodi'r categorïau o staff sydd wedi'u cynnwys.
- O ran awdurdod dros dro, gallai egluro: yr amgylchiadau lle bydd staff nad yw eu swyddi fel arfer yn cynnwys goruchwyllo disgyblion a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda disgyblion yn derbyn awdurdod i reoli neu i fod yn gyfrifol am ddisgyblion ac y bydd ganddynt felly'r pŵer statudol i ddefnyddio grym; a sut y bydd athrawon a staff eraill ag awdurdod parhaol yn gwybod pwy sydd ag awdurdod dros dro.

## Penderfynu pryd i ddefnyddio grym

- Gallai'r adran hon gyflwyno canllawiau i helpu staff i benderfynu a ddylid defnyddio grym ai peidio mewn amgylchiadau penodol. Er enghraifft, gallai awgrymu y dylai staff ond ddefnyddio grym pan:
  - Fyddai canlyniadau posibl peidio ag ymyrryd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ystyried defnyddio grym;
  - Byddai'r tebygolrwydd o gyflawni'r canlyniad a ddymunir drwy ddulliau eraill yn isel; a
  - Byddai'r risg sy'n gysylltiedig â pheidio â defnyddio grym yn gwrthbwysu risg defnyddio grym.
- Gallai'r adran hon egluro hefyd:
  - Sut y bydd staff (yn cynnwys pobl ag awdurdod dros dro i reoli disgyblion neu fod yn gyfrifol amdanynt) yn cael gwybodaeth am ddisgyblion a chynghor ar sut i ymdrin â disgyblion sy'n cyflwyno risgiau arbennig i'w hunain neu i eraill (o ganlyniad i AAA ac/neu anabledau ac/neu amgylchiadau personol eraill, megis trais yn y cartref); a
  - Sut y dylai staff leihau'r risgiau mwyaf, er enghraifft drwy ffonio'r heddlu os credir y byddai disgybl yr amheuir bod ganddo arf yn debygol o wrthod chwiliad.

## Defnyddio grym

- Gallai'r adran hon bwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r grym lleiaf posibl sydd ei angen i gyflawni'r canlyniad a ddymunir.
- Gallai'r adran hefyd:
  - Gyngchori y dylid rhoi rhybudd llafar clir i'r disgybl y gellir gorfod defnyddio grym;
  - Awgrymu'r mathau o rym y gellir eu defnyddio, gan egluro'n glir y dylid defnyddio unrhyw fath o ataliaeth sy'n debygol o anafu disgybl (yn arbennig unrhyw beth a allai gyfyngu ar anadlu) mewn argyfyngau eithafol yn unig pan nad oedd unrhyw ddewis ymarferol arall; a
  - Chynghori staff, i'r graddau y bo'n bosibl, na ddylent ddefnyddio grym oni fydd neu hyd nes y bydd oedolyn cyfrifol arall yn bresennol i gefnogi, i arsylwi ac i alw am gymorth.

## Hyfforddi staff

- Gallai'r adran hon drafod:
  - Sut y gwneir penderfyniadau am hyfforddiant; a
  - Sut y caiff hyfforddiant ei ddarparu.

## Cofnodi digwyddiadau

- Gallai'r adran hon gyflwyno trefniadau'r ysgol ar gyfer penderfynu pa ddigwyddiadau i'w cofnodi a sut i'w cofnodi.
- Efallai y bydd ysgolion yn dymuno defnyddio eu fersiwn nhw o'r ffurflen cofnodi digwyddiadau atodedig (**Atodiad 3**).

## **Rhoi gwybod am ddigwyddiadau**

- Gallai'r adran hon gyflwyno trefniadau'r ysgol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau cofnodadwy i rieni.
- Gallai hefyd drafod adrodd i asiantaethau allanol megis gwasanaethau plant awdurdodau lleol eraill, y Bwrdd Diogelu Plant Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, timau troseddau ieuencid a'r heddlu.

## **Cymorth yn dilyn digwyddiadau**

- Gallai'r adran hon gyflwyno'r trefniadau ar gyfer cefnogi staff a disgyblion sydd wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiadau, gan gynnwys diwallu anghenion corfforol ar unwaith ac ail-feithrin cydberthnasau, a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r digwyddiad.

## **Cwynion a chyhuddiadau**

- Gallai'r adran hon gyflwyno trefniadau'r ysgol ar gyfer ymdrin â chwynion a chyhuddiadau o gamymddwyn sy'n deillio o ddigwyddiadau.

## **Monitro ac adolygu**

- Gallai'r adran hon gyflwyno trefniadau'r ysgol ar gyfer monitro effaith ei pholisi ar ddefnyddio grym ac ar gyfer adolygu a datblygu'r polisi, gan gynnwys rolau uwch arweinwyr a llywodraethwyr.

## Ymyriad Corfforol Cyfyngol mewn ysgolion: polisi enghreifftiol

### 1 Cefndir

Rydym yn diffinio ymyriad corfforol cyfyngol fel a ganlyn:

Ystyr ymyriad corfforol cyfyngol yw pan fydd aelod o staff yn defnyddio grym yn fwriadol i gyfyngu ar symudiad plentyn yn erbyn ei ewyllys. Nod yr holl staff yn y lleoliad hwn yw helpu plant i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain. Gwnawn hyn drwy gyfuniad o ymagweddau, sy'n cynnwys:

- bod yn fodolau cadarnhaol o ymddygiad
- addysgu cwricwlwm diddorol a heriol
- pennu a gorfodi ffiniau a disgwyliadau priodol
- a rhoi adborth cefnogol.

Mae mwy o fanylion am hyn a'n hymagwedd gyffredinol at hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol i'w gweld yn ein polisi ymddygiad. Mae adegau pan fydd ymddygiad plant yn cyflwyno heriau penodol a all ofyn am ymyriad corfforol cyfyngol. Mae'r polisi hwn yn cyflwyno ein disgwyliadau ynghylch defnyddio ymyriad o'r fath. Nid oes bwriad iddo gyfeirio at ddefnyddio cyswllt corfforol yn gyffredinol a allai fod yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, fel:

- rhoi arweiniad corfforol i blant (er enghraifft mewn gweithgareddau ymarferol ac ymarfer corff)
- darparu cymorth emosiynol pan fydd plentyn mewn tralod
- darparu gofal corfforol (fel cymorth cyntaf neu gymorth i ddefnyddio'r tŷ bach).

Mae'r polisi hwn yn gyson â'n polisïau Amddiffyn Plant a Chyfle Cyfartal, a chanllawiau cenedlaethol a lleol i ysgolion ynghylch diogelu plant. Rydym yn arfer gofal priodol wrth ddefnyddio cyswllt corfforol (mae arweiniad pellach yn ein polisi Diogelu Plant); mae rhai plant y byddai cyswllt corfforol â nhw yn amhriodol (fel y rhai â hanes o gael eu cam-drin yn gorfforol neu'n rhywiol, neu'r rhai o grwpiau diwylliannol/crefyddol penodol). Rydym yn rhoi sylw penodol i faterion rhywedd a phreifatrwydd, ac i unrhyw ofynion penodol grwpiau diwylliannol/crefyddol penodol.

### 2 Egwyddorion ar gyfer defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol

#### 2.1 Yng nghyd-destun dulliau cadarnhaol

Ni fyddwn yn defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol oni bai bod y risgiau sydd ynghlwm wrth beidio â defnyddio grym yn fwy na'r risgiau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio grym. Nid dyma ein dull o ddewis ar gyfer rheoli ymddygiad plant. Gellir defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol dim ond yng nghyd-destun fframwaith rheoli ymddygiad cadarnhaol sydd wedi'i sefydlu a'i weithredu'n dda, ac eithrio mewn sefyllfaoedd o argyfwng. Rydym yn disgrifio ein dull o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn ein Polisi Ymddygiad. Ein nod yw gwneud popeth o fewn ein gallu i osgoi defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol. Byddem yn defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol dim ond pan fyddem yn barnu nad oes dewis arall llai ymwithiol sy'n ymarferol yn rhesymol. Fodd bynnag, gall fod adegau prin sydd o gymaint o bryder fel y byddem yn barnu bod angen defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol ar unwaith. Byddem yn defnyddio ymyriad



corfforol cyfyngol ar yr un pryd â defnyddio dulliau eraill, fel dweud, “Paid!” ac yn rhoi rhybudd o’r hyn a allai ddigwydd nesaf. Mae diogelwch bob amser o’r pwys mwyaf a chaiff staff eu cynghori i beidio â defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol os yw hynny’n debygol o achosi perygl iddynt hwy. Byddwn yn rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid am ein polisi Ymyriad Corfforol ochr yn ochr â pholisïau eraill pan fydd eu plentyn yn ymuno â’n hysgol.

## 2.2 Dyletswydd gofal

Mae gan bob un ohonom ddyletswydd gofal tuag at y plant yn ein lleoliad. Mae’r ddyletswydd gofal hon yr un mor berthnasol i’r hyn *nad ydym* yn ei wneud â’r hyn yr *ydym* yn ei wneud. Pan fydd plant mewn perygl o anafu eu hunain neu eraill, neu o achosi difrod sylweddol i eiddo, mae gennym gyfrifoldeb i ymyrryd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn cynnwys ymdrech i droi sylw’r plentyn i weithgaredd arall neu gyfarwyddyd syml “Paid!” ynghyd â rhybudd o’r hyn a allai ddigwydd nesaf. Fodd bynnag, os byddwn yn barnu ei fod yn angenrheidiol, gallwn ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol.

## 2.3 Grym rhesymol

Pan fydd angen i ni ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol, byddwn yn ei ddefnyddio yn ôl egwyddor grym rhesymol. Ystyr hyn yw y byddwn yn defnyddio grym yn gymesur â’r amgylchiadau. Byddwn yn defnyddio cyn lleied o rym ag y bo’n angenrheidiol er mwyn cynnal diogelwch, ac yn ei ddefnyddio am gyn lleied o amser â phosibl.

## 3 Pryd gellir defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol?

Mae’n bosibl cyfiawnhau defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol pan fydd disgybl:

1. yn cyflawni trosedd (neu, i ddisgybl o dan oedran cyfrifoldeb troseddol, yr hyn a fyddai’n drosedd i ddisgybl hŷn)
2. yn achosi anaf personol i unrhyw berson (yn cynnwys y disgybl ei hun), neu ddifrod i’w eiddo; neu
3. yn peryglu trefn a disgyblaeth dda yn yr ysgol neu ymhlith unrhyw ddisgyblion sy’n derbyn addysg yn yr ysgol, naill ai yn ystod sesiwn addysgu neu fel arall.

Gall ymyriad corfforol cyfyngol fod yn briodol hefyd pan fernir bod yr uchod yn debygol iawn o ddigwydd, er nad ydynt wedi digwydd eto. Rydym yn ofalus iawn ynghylch defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol lle nad oes unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch anaf posibl neu ddifrod eithriadol i eiddo. Byddai ymyriad corfforol cyfyngol yn cael ei ddefnyddio o dan amgylchiadau eithriadol yn unig, gyda staff sy’n adnabod y myfyriwr yn dda ac sy’n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am y risgiau cymharol o ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol neu beidio; er enghraifft, atal plentyn iau rhag gadael safle’r ysgol.

Prif nod ymyriad corfforol cyfyngol fel arfer yw cynnal neu adfer diogelwch. Rydym yn cydnabod y gall fod adegau pan fydd modd cyfiawnhau bod ymyriad corfforol cyfyngol yn ymateb rhesymol a chymesur er mwyn atal difrod i eiddo neu i gynnal trefn a disgyblaeth dda yn yr ysgol. Fodd bynnag, byddem yn ofalus iawn i ystyried yr holl opsiynau eraill sydd ar gael cyn defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol i gyflawni’r naill neu’r llall o’r nodau hyn.

Ym mhob achos, cofiwn y gall ymyriad corfforol cyfyngol waethygu'r anhawster mewn gwirionedd, hyd yn oed os ailsefydlu trefn oedd y nod. Os byddwn yn barnu y byddai ymyriad corfforol cyfyngol yn gwneud y sefyllfa'n waeth, ni fyddem yn ei ddefnyddio, ond byddem yn gwneud rhywbeth arall (fel mynd i geisio help, gwneud yr ardal yn ddiogel neu rybuddio ynghylch beth allai ddigwydd nesaf a rhoi cyfarwyddyd i beidio) sy'n cyd-fynd â'n dyletswydd gofal.

Mae ein dyletswydd gofal yn golygu y gallem ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol pe bai plentyn yn ceisio gadael ein safle a'n bod yn barnu y byddai hynny'n risg annerbyniol. Mae'r ddyletswydd gofal hon hefyd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau ein safle: gall fod sefyllfaoedd hefyd lle mae angen i ni ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol pan fyddwn yn rheoli neu'n gyfrifol am blant i ffwrdd o'r safle (e.e. ar deithiau ysgol). Ni fyddwn byth yn defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol oherwydd dicter neu fel cosb.

#### **4 Pwy all ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol?**

Os yw'n briodol defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol, a'i fod yn rhan o fframwaith rheoli ymddygiad cadarnhaol, dylai aelod o staff sy'n adnabod y plentyn yn dda fod yn rhan o'r ymyriad a, lle bynnag y bo'n bosibl, dylai fod wedi cael hyfforddiant wedi'i achredu gan BILD ar ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol. Fodd bynnag, mewn argyfwng, dylai unrhyw rai o'r canlynol allu defnyddio grym rhesymol:

1. unrhyw athro sy'n gweithio yn yr ysgol,  
ac
2. unrhyw un arall sydd wedi cael awdurdod gan y pennaeth i reoli disgyblion neu fod yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys:
  - (a) staff cymorth sydd â dyletswyddau arferol i oruchwylio disgyblion, fel cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr cynnal dysgu, mentoriaid dysgu a goruchwylwyr amser cinio;  
a
  - (b) phobl y mae'r pennaeth wedi rhoi awdurdod dros dro iddynt reoli neu i fod yn gyfrifol am ddisgyblion megis aelodau o staff cyflogedig nad yw eu swydd yn cynnwys goruchwylio disgyblion fel arfer (er enghraifft staff arlwyyo neu staff sy'n gysylltiedig â'r eiddo) a gwirfoddolwyr di-dâl (er enghraifft rhieni sy'n hebrwng disgyblion ar ymweliadau a drefnwyd gan yr ysgol), ond nid swyddogion.

## 5 Cynllunio o gwmpas unigolyn ac asesiad risg

Mewn argyfwng, mae staff yn gwneud eu gorau, gan ddefnyddio grym rhesymol o fewn eu dyletswydd gofal.

Pan fydd gan blentyn unigol gynllun rheoli ymddygiad cadarnhaol unigol, sy'n cynnwys defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol, rydym yn sicrhau bod y staff hynny'n cael hyfforddiant a chymorth priodol ar reoli ymddygiad ynghyd ag ymyriad corfforol cyfyngol. Rydym yn ystyried iechyd corfforol ac emosiynol staff a phlant pan fyddwn yn llunio'r cynlluniau hyn ac yn ymgynghori â rhieni/gwarcheidwaid y plentyn. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, byddwn yn defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol yng nghydestun asesiad risg blaenorol sy'n ystyried:

- Beth yw'r risgiau
- Pwy sy'n wynebu'r risg a sut
- Beth allwn ei wneud i reoli'r risg (gall hyn gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol)

Rydym yn defnyddio'r asesiad risg hwn i lywio'r cynllun ymddygiad unigol yr ydym yn ei ddatblygu i gefnogi'r plentyn. Os yw'r cynllun ymddygiad hwn yn cynnwys ymyriad corfforol cyfyngol, un elfen yn unig fydd hynny o ymagwedd gyfan at gefnogi ymddygiad y plentyn. Mae'r cynllun ymddygiad yn amlinellu:

- Ein dealltwriaeth o beth mae'r plentyn yn ceisio'i gyflawni neu ei gyfleu drwy ei ymddygiad
- Sut rydym yn addasu ein hamgylchedd i ateb anghenion y plentyn yn well
- Sut rydym yn addysgu ac yn annog y plentyn i ddefnyddio ymddygiad newydd, mwy priodol
- Sut rydym yn gwobrwo'r plentyn pan fydd yn gwneud cynnydd
- Sut rydym yn ymateb pan fydd ymddygiad y plentyn yn heriol (strategaethau ymatebol).
- Rydym yn rhoi sylw penodol i strategaethau ymatebol. Defnyddiwn amrywiaeth o ddulliau (gan gynnwys hiwmor, troi sylw, adleoli a chynnig dewisiadau) yn lle defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol.
- Rydym yn dewis y strategaethau ymatebol hyn yng ngoleuni ein hasesiad risg.
- Rydym yn tynnu ar gynifer o safbwyntiau â phosibl pan fyddwn yn rhagweld y bydd ymddygiad plentyn unigol efallai'n gofyn am ryw fath o ymyriad corfforol cyfyngol. Yn benodol, rydym yn cynnwys safbwynt y plentyn. Hefyd, rydym yn cynnwys rhieni'r plentyn (neu'r rheiny sydd â chyfrifoldeb rhiant), staff o'n hysgol sy'n gweithio gyda'r plentyn, ac unrhyw staff cymorth ymweliadol (fel Seicolegwyr Addysg, gweithwyr o'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad, Therapyddion Iaith a Lleferydd, Gweithwyr Cymdeithasol a chydweithwyr o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed).
- Rydym yn cofnodi canlyniad y cyfarfodydd cynllunio hyn ac yn gofyn am lofnod y rhiant i gadarnhau ei ddealltwriaeth o'n dull arfaethedig. Rydym yn adolygu'r cynlluniau hyn o leiaf unwaith bob 4 i 6 mis, neu'n amlach os oes unrhyw bryderon ynghylch natur y defnydd o ymyriad corfforol cyfyngol neu ba mor aml y mae'n digwydd, neu os oes unrhyw newidiadau mawr i amgylchiadau'r plentyn.
- Rydym yn cydnabod y gall fod rhai plant yn ein hysgol y mae cyswllt corfforol yn gyffredinol yn arbennig o annerbyniol iddynt o ganlyniad i'w diwylliant/grŵp

crefyddol neu anabled. Gall fod eraill y mae cyswllt o'r fath yn bryder mawr iddynt o ganlyniad i'w hanes personol, yn benodol hanes o gam-drin. Mae gennym systemau sy'n tynnu sylw staff yn gyfrinachol i faterion o'r fath fel y gallwn gynllunio yn unol â hynny i ateb anghenion plant unigol.

## 6 Pa fath o ymyriad corfforol cyfyngol a all gael ei ddefnyddio

Dylai unrhyw ddefnydd o ymyriad corfforol cyfyngol gan ein staff fod yn gyson â'r egwyddor grym rhesymol. Ym mhob achos, dylai'r dewis o weithred gan staff gael ei arwain gan yr egwyddorion yn adran 2 uchod. Ni ddylai staff weithredu mewn ffordd y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol achosi anaf, er enghraifft, drwy:

- Ddal plentyn o gwmpas ei wddf neu ei goler neu mewn unrhyw ffordd arall a allai gyfyngu ar allu'r plentyn i anadlu
- Taro, dyrnu neu gicio plentyn
- Troi neu orfodi breichiau neu goesau wrth gymal
- Baglu plentyn
- Dal plentyn gerfydd ei wallt neu ei glust

Fel rheol, byddai gweithredoedd o'r fath yn cael eu hystyried yn amhriodol. Nid ydym yn cynllunio ar gyfer neilltuaeth ac nid ydym yn caniatáu i staff ei ddefnyddio, heblaw mewn argyfwng. Ystyr neilltuaeth yw pan fydd person ifanc yn cael ei orfodi i dreulio amser ar ei ben ei hun mewn lle cyfyng yn erbyn ei ewyllys. Fodd bynnag, mae'n bosibl y defnyddiwn dynnu allan neu amser tawelu mewn ffordd a gynlluniwyd. Rydym yn diffinio'r rhain fel a ganlyn:

**Tynnu allan** – tynnu person ifanc, gyda'i gytundeb, allan o sefyllfa sydd wedi achosi pryder neu drallod, i fan lle gall gael ei wyllo'n barhaus a'i gefnogi tan ei fod yn barod i fynd yn ôl i'w weithgareddau arferol.

**Amser tawelu** – pan fydd ymateb i ymddygiad amhriodol person ifanc yn cynnwys cyfnod penodol heb atgyfnerthu cadarnhaol fel rhan o gynllun ymyrryd cyffredinol.

## 7 Cofnodi ac rhoi gwybod am ddigwyddiadau

Rydym yn cofnodi unrhyw ddefnydd ar ymyriad corfforol cyfyngol. Gwnawn hyn cyn gynted ag y bo modd a bob amser o fewn 24 awr i'r digwyddiad. Caiff copi o ffurflen y digwyddiad ei anfon i'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad o fewn wythnos i'r digwyddiad er mwyn caniatáu ar gyfer dadansoddi'r defnydd o ymyriad corfforol cyfyngol ar draws yr awdurdod. Yn ddibynnol ar natur y digwyddiad, gallwn hefyd wneud nodyn ohono mewn cofnodion eraill, fel y llyfr damweiniau, cofnodion digwyddiadau treisgar neu daflenni olrhain plant sydd hefyd yn cael eu cadw yn swyddfa'r pennaeth/swyddfa'r ysgol a'u rhannu gyda'r Adran Gwasanaethau i Blant priodol e.e. Iechyd a Diogelwch. At hynny, mae ein corff llywodraethu yn sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i gofnodi digwyddiadau arwyddocaol ac yna roi gwybod i rieni'r disgybl am y digwyddiadau hyn cyn gynted â phosibl. Ar ôl defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol, rydym yn sicrhau bod y pennaeth yn cael gwybod cyn gynted â phosibl. Hefyd, rydym yn rhoi gwybod i BOB

rhiant dros y ffôn (neu drwy lythyr neu anfon neges adref gyda'r plentyn os nad yw hyn yn bosibl).

## 8 Cefnogi ac adolygu

Rydym yn cydnabod bod bod yn rhan o ymyriad corfforol yn gallu bod yn annifyr i bawb, boed y myfyriwr sy'n cael ei ddal, y sawl sy'n dal, neu rywun arall sy'n gweld neu'n clywed am yr hyn sydd wedi digwydd. Yn dilyn ymyriad corfforol cyfyngol, rydym yn rhoi cymorth i'r plentyn fel y gall ddeall pam roedd hyn yn angenrheidiol. Lle bo'n bosibl, rydym yn cofnodi sut roedd y plentyn yn teimlo am hyn. Lle bo'n briodol, rydym yn cynnal yr un math o sgysiau gyda phlant eraill a welodd beth ddigwyddodd. Ym mhob achos, byddwn yn aros nes bod y plentyn wedi tawelu'n ddigon i allu siarad yn gynhyrchiol a dysgu o'r sgwrs hon. Os bydd angen, gofynnir i'r plentyn p'un a gafodd ei anafu er mwyn gallu rhoi cymorth cyntaf priodol. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r plentyn ddweud a ddigwyddodd rhywbeth amhriodol mewn cysylltiad â'r digwyddiad.

Yn ogystal, rydym yn cefnogi oedolion a oedd yn gysylltiedig, naill ai'n weithredol neu drwy wyllo, drwy roi'r cyfle iddynt drafod beth sydd wedi digwydd gyda'r aelod mwyaf priodol o dîm y staff. Nod allweddol o'n cymorth ar ôl digwyddiad yw unioni unrhyw straen posibl i'r berthynas rhwng y plentyn â'r bobl a oedd yn rhan o'r ymyriad corfforol cyfyngol.

Yn dilyn ymyriad corfforol cyfyngol, byddwn yn ystyried a oes angen adolygu'r cynllun ymddygiad unigol fel y gallwn leihau'r risg y bydd angen defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol eto.

## 9 Monitro

Rydym yn monitro'r defnydd o ymyriad corfforol cyfyngol yn ein hysgol. \*\*\*\*\*ac \*\*\*\*\* sy'n gyfrifol am adolygu'r cofnodion bob tymor, ac yn amlach os bydd yr angen yn codi, fel bod modd cymryd camau priodol. Caiff y wybodaeth ei defnyddio hefyd gan y corff llywodraethu pan fydd y polisi hwn a pholisïau cysylltiedig yn cael eu hadolygu.

Mae ein dadansoddiad yn ystyried materion cydraddoldeb fel oedran, rhywedd, anabledd, diwylliant a materion crefydd er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw wahaniaethu posibl; rydym yn ystyried materion posibl yn gysylltiedig â diogelu plant hefyd. Rydym yn chwilio am unrhyw dueddiadau yn y defnydd cymharol o ymyriad corfforol cyfyngol ar draws gwahanol aelodau staff a gwahanol amserau o'r dydd neu leoliadau. Ein nodau yw diogelu plant, osgoi gwahaniaethu a datblygu ein gallu i ateb anghenion plant heb ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol. Rydym yn adrodd yn ôl i'r corff llywodraethu ar y dadansoddi hwn fel y gellir cymryd camau pellach a'u monitro.

## 10 Pryderon a chwynion

Mae defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol yn gallu bod yn annifyr i bawb a gall arwain at bryderon, honiadau neu gŵynion ynghylch defnydd amhriodol neu ormodol. Yn benodol, gallai plentyn gwyno am ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol yng ngwres y funud ond yn sgil myfyrio ymhellach, bydd yn deall yn well pam y digwyddodd yr ymyriad. Mewn sefyllfaeod eraill, gallai myfyrdod pellach arwain i'r plentyn deimlo'n gryf fod yr ymyriad corfforol cyfyngol yn amhriodol. Dyma pam rydym yn cymryd gofal i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i adolygu'r digwyddiad ar ôl ymdawelu.

Os oes gan blentyn neu riant bryder am y ffordd y defnyddiwyd ymyriad corfforol cyfyngol, mae gweithdrefn gŵynion ein hysgol yn esbonio sut i fynd â'r mater ymhellach a faint o amser y byddwn yn ei gymryd i ymateb i'r pryderon hyn.

Pan fydd honiad o ymosodiad neu ymddygiad camdriniol, rydym yn sicrhau bod y pennaeth yn cael gwybod ar unwaith. Byddem hefyd yn dilyn ein gweithdrefnau diogelu plant. Os yw'r pennaeth yn absennol, byddwn yn sicrhau bod y dirprwy bennaeth yn cael gwybod am ymyriad corfforol cyfyngol.

Os yw'r pryder, y gŵyn neu'r honiad yn ymwneud â'r pennaeth, rydym yn sicrhau bod Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cael gwybod. Os nad yw'r rhieni/cynhalwyr yn fodlon â'r ffordd y cafodd y gŵyn ei thrin, mae ganddynt yr hawl i fynd â'r mater ymhellach yn unol â'r hyn a gyflwynir yn ein gweithdrefn gŵynion. Mae'r canlyniadau a'r gweithdrefnau sy'n cael eu defnyddio wrth ddelio â chwynion yn cael eu monitro gan y corff llywodraethu.

## 11 Adolygu'r polisi hwn

Mabwysiadwyd y polisi hwn gennym ar \*\*\*\*\*. Caiff ei adolygu nesaf erbyn \*\*\*\*. Byddai hyn yn dibynnu ar y lleoliad unigol, ond argymhellir adolygu'r polisi o leiaf bob 2 flynedd.



**Adroddiad Digwyddiad Difrifol a Chofnod Ymyriad Corfforol Cyfyngol**

Os bydd Ymyriad Corfforol Cyfyngol, llenwch bob adran a'i hanfon, o fewn wythnos o'r digwyddiad, at:  
Lorna Bryant, Swyddog Gweinyddol, Gwasanaeth Cynhwysiant a Mynediad, Tŷ Trevithick,  
Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ

<b>Rhif Adroddiad Digwyddiad Difrifol:</b>				<b>Dyddiad:</b>				
<b>Enw'r person ifanc:</b>								
<b>Dyddiad geni:</b>				<b>Blwyddyn CA:</b>				
<b>Ysgol:</b>								
<b>Lleoliad y digwyddiad:</b>								
<b>Enwau llawn a rolau'r staff cysylltiedig:</b>								
<b>Cyfnod y digwyddiad (awr : munud)</b>		<b>Hyd unrhyw ataliaeth</b>	<b>Unrhyw anafiadau</b>		<b>Archwiliad meddygol</b>		<b>Adolygu'r digwyddiad gyda'r person ifanc</b>	
Dechrau		munudau	Arall		Cynigiwyd		Cynigiwyd	
Gorffen			Plentyn		Derbyniwyd		Derbyniwyd	
			Neb		Gwrthodwyd		Gwrthodwyd	
<b>Natur y digwyddiad</b>		<b>Asiantaethau allanol a hysbyswyd</b>				<b>Cofnodion ategol wedi'u cwblhau</b>		
Dianc		Rhiant/ Gwarcheidwad		Staff meddygol		Llyfr digwyddiadau		
Tarfud difrifol		Awdurdod lleoli		Gwasanaeth Seicoleg Addysg		Adroddiad damwain		
Difrod i eiddo		Carfan o amgylch y Teulu ('TAF')		Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad		Adroddiad meddygol		
Ymosod / Anaf i berson		Atgyfeiriad Diogelu Plant		Gwasanaeth Troseddau leuenctid		RIDDOR*		
Trosedd		Gweithiwr Cymdeithasol		Heddlu		Datganiad ffurfiol		
<b>Yr Amgylchedd a'r Ysgogiadau:</b>								
Disgrifiwch beth oedd yn digwydd cyn y digwyddiad								
<b>Asesiad risg (pwy oedd mewn risg a lefel y risg)</b>								
<b>Y person ifanc ei hun</b>		<b>uchel / canolig / isel</b>	<b>Oedolyn/ Oedolion</b>	<b>uchel / canolig / isel</b>	<b>Disgybl arall / Disgyblion eraill</b>	<b>uchel / canolig/ isel</b>		
<b>Ticiwch a/neu ddisgrifio yn union beth oedd y risg:</b>								
Cam-drin geiriol		Taro		Cydio mewn gwallt				
Cnoi		Pinsio		Cydio dillad				
Cicio		Poeri		Cydio gwddf				
Dyrnu		Dal y corff		Cydio braich				
Taflu gwrthrychau		Arf		Arall				
Arall:								

\* Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurrences (RIDDOR)

**Disgrifiad o'r digwyddiad**

--

**Ymgeisiadau i gyfeirio sylw at rywbeth arall, troi sylw a thechnegau atal rhag gwaethygu:**

Cyngor a chymorth llafar		Troi sylw	
Cyfarwyddiadau cadarn, clir		Cyfeirio sylw at rywbeth arall	
Trafod er mwyn dod i gytundeb		Rhoi sicrwydd	
Dewisiadau cyfyngedig		Anwybyddu bwriadol	
Cyffyrddiad er mwyn cynnig sicrwydd		Cynnig tynnu allan	
Siarad yn ddigyffro		Tynnu allan dan gyfarwyddyd	
Amser tawelu		Newid yr oedolyn cysylltiedig	
Atgoffa am lwyddiannau		Hiwmor	
Atgoffa am y canlyniadau		Arall	

**Ymgeisiadau ar Strategaethau Ymyriad Corfforol Team-Teach a ddefnyddiwyd**

Hebrwng person bach		Lapio T	
Dal yn gyfeillgar		Lapio T a symud i eistedd	
Un penelin (dau berson)		Lapio T a symud i'r llawr	
Un penelin (dau berson) – i eistedd		Arall	

**Disgrifiwch Strategaethau Ymyriad Corfforol eraill a ddefnyddiwyd**

--

**Manylion a dyddiadau'r hyfforddiant Team-Teach neu hyfforddiant achrededig arall gan BILD a gafodd yr aelod/aelodau o staff cysylltiedig**

Enw	Hyfforddiant	Dyddiad

**Pwyntiau dysgu (diweddar/paratoi Cynllun Ymdrin yn Gadarnhaol)**

--



<b>Gweithgarwch dilynol – sesiwn drafod ac adfer yn dilyn y digwyddiad:</b>			
<b>Adroddiad ar y digwyddiad gan y person a thrafodaeth (i'w ysgrifennu gydag aelod o staff sydd â pherthynas dda gyda'r disgybl)</b>			
<b>Aelod o staff:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Sesiwn drafod ddilynol gyda'r rhieni/cynhalwyr:</b>	<b>Wedi cynnal / Heb gynnal</b>	<b>Dyddiad:</b>	
Os cynhaliwyd sesiwn drafod, rhowch fanylion y trafodaethau			

**Bydd angen llofnod y person sy'n cwblhau'r adroddiad a phob person arall sy'n gysylltiedig / yn dyst**

<b>Enw'r person sy'n cwblhau'r adroddiad:</b>		<b>Swydd:</b>	
<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Enw/llofnod person arall sy'n gysylltiedig / yn dyst:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Enw/llofnod person arall sy'n gysylltiedig / yn dyst:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Enw/llofnod person arall sy'n gysylltiedig / yn dyst:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Enw/llofnod person arall sy'n gysylltiedig / yn dyst:</b>		<b>Dyddiad:</b>	

**Bydd angen i'r Pennaeth lofnodi'r ffurflen hon er mwyn iddi gael ei derbyn**

<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
-----------------	--	-----------------	--

Awgrymir y dylai ysgolion gadw cofnod canolog o bob Adroddiad Digwyddiad Difrifol ac Ymyriad Corfforol Cyfyngol mewn llyfr digwyddiadau a rhoi copi o'r ffurflen yng nghofnod unigol y disgybl.  
**Anfonwch gopi i'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant dim ond os bydd y person ifanc wedi'i ddal.**

**At ddefnydd y swyddfa yn unig**

<b>Dyddiad dod i law a throsglwyddo i'r Cydlynnydd Ymddygiad Anghenion Addysgol Arbennig:</b>	
<b>Llofnod Cydlynnydd Ymddygiad Anghenion Addysgol Arbennig:</b>	
<b>Dyddiad prosesu:</b>	



## Atodiad 4

### Cynllun Ymdrin yn Gadarnhaol

Enw'r plentyn:		Rhif y cynllun:		Dyddiad:	
----------------	--	-----------------	--	----------	--

<b>Nodweddion cadarnhaol:</b> <i>Beth mae'r disgybl yn ei wneud yn dda a beth mae'n hoffi ei wneud?</i>	<b>Anawsterau:</b> <i>Unrhyw ddiagnosis o anhawster dysgu neu gyflwr penodol ac ati?</i>

Pwy sy'n debygol o gael ei niweidio yn sgil digwyddiad?			
	Y plentyn ei hun	Disgybl arall	Oedolyn
Annhebygol			
Posibl			
Tebygol			

Beth yw'r camau tebygol a phwy fyddai mewn risg neu'n cael ei niweidio?			
Math o ddigwyddiad	Y plentyn ei hun	Disgybl arall	Oedolyn
Dianc			
Cam-drin geiriol			
Tarfu ar wers yn ddifrifol			
Taro			
Pinsio			
Cnoi			
Dyrnio			
Poeri			
Cydio mewn gwallt			
Cydio gwddf			
Cydio dillad			
Cydio braich			
Dal y corff			
Tafu arfau/taflegrau			
Arall			

<b>Ysgogiadau:</b> <i>Pa sefyllfaeodd sydd wedi arwain at broblemau yn y gorffennol?</i>	<b>Dulliau llwyddiannus:</b> <i>Pa ymyriadau rhagweithiol fu'n effeithiol wrth atal pryderon y disgybl rhag cynyddu neu wrth leihau problemau?</i>

<b>Disgrifiwch unrhyw addasiadau i'r amgylchedd neu i arferion disgyblion y gellid eu rhoi ar waith i atal y pryderon rhag cynyddu?</b>

<b>Technegau atal rhag gwaethygu / disgrifiwch unrhyw strategaethau sydd wedi gweithio yn y gorffennol neu y dylid ceisio'u hosgoi:</b>			
<b>Strategaeth</b>	<b>Cynnig</b>	<b>Osgoi</b>	<b>Disgrifiad o'r effaith/defnydd</b>
Cyngor a chymorth llafar			
Cyfarwyddiadau cadarn, clir			
Trafod er mwyn dod i gytundeb			
Dewisiadau cyfyngedig			
Troi sylw			
Cyfeirio sylw at rywbeth arall			
Rhoi sicrwydd			
Anwybyddu bwriadol			
Cyffyrddiad er mwyn cynnig sicrwydd			
Siarad yn ddigyffro			
Amser tawelu			
Cynnig tynnu allan			
Gorchymyn tynnu allan			
Newid yr oedolyn cysylltiedig			
Atgoffa am y canlyniadau			
Hiwmor			
Atgoffa am lwyddiannau			
Erail (tynnu allan o'r dosbarth ac ati)			

**Y strategaeth orau ar gyfer delio â'r digwyddiadau uchod** (1-Strategaethau atal digwyddiad rhag gwaethygu ar y daflen flaenorol; 2-Galw am gymorth; 3-Galw am gymorth allanol (yr heddlu); 4- Hebrwng person bach; 5-Dal yn gyfeillgar; 6-Un penelin (2 berson) – i eistedd; 7-Ffigur o bedwar (2 berson); 8-Lapio T; 9-Lapio T a symud i eistedd; 10-Lapio T a symud i'r llawr)

Math o ddigwyddiad (Dileu/diwygio fel y bo'n briodol)	Strategaeth									
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
Cam-drin geiriol										
Tarfu ar wers yn ddifrifol										
Cario/defnyddio deunyddiau ysmegu										
Cario/defnyddio ffôn symudol										
Taro										
Pinsio										
Cnoi										
Dyrnio										
Poeri										
Cydio mewn gwallt										
Cydio gwddf										
Cydio dillad										
Cydio braich										
Dal y corff										
Arfau/taflegrau										
Hunan-niweidio										
Arall										

**Hysbysu:**

	Rhiant/ Cynhaliwr	Gweithiwr Cymdeithasol	Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad	Meddyg teulu/ Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed	Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Seicoleg Plant	Swyddog Diogelu Plant	Arall
Enw:							
Dyddiad:							
Enw'r sawl sy'n cwblhau'r cynllun hwn:							

## Ymyriad Corfforol yn gysylltiedig â Disgyblion Ysgol

**GAIR I GALL** i atgoffa staff

### DYLECH

- Wybod y gweithdrefnau yng nghanllawiau'r ysgol ar gyfer defnyddio ymyriad corfforol. Mae copi o'r rhain i'w gael gan\_\_\_\_\_.
- Trafod y gweithdrefnau gydag uwch aelod o staff os nad ydych yn siŵr am rywbeth.
- Anfon am gymorth oedolyn yn fuan os yw'r sefyllfa'n dechrau mynd yn drech na chi a'i bod yn ymddangos bod ymyriad corfforol yn debygol.
- Asesu'r sefyllfa'n dawel cyn gweithredu.
- Defnyddio cyn lleied o ataliaeth â phosibl am y cyfnod byrraf posibl.
- Rhoi gwybod i'r Pennaeth neu i uwch aelod o staff cyn gynted â phosibl am y digwyddiad a chwblhau adroddiad arno.

### PEIDIWCH

- Rhoi eich hun mewn perygl drwy geisio ymyrryd yn gorfforol â disgybl sy'n amlwg yn cario arf.
- Ceisio atal disgybl pan fyddwch wedi colli'ch tymer.
- Defnyddio grym gorfodol.
- Rhoi eich hun mewn perygl o honiad ffug yn eich erbyn, h.y. osgowch fod ar eich pen eich hun gyda disgybl os oes modd.

## Arweiniad cryno i staff ar ddefnyddio ymyriad corfforol

### Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn i staff yn grynodedb o bolisi manwl ein hysgol ar ddefnyddio ymyriad corfforol. Os oes gan staff unrhyw amheuaeth am ddefnyddio ymyriad corfforol, dylent gyfeirio at y polisi llawn. Mae'r canllaw cryno hwn yn cyfeirio at ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol (ataliaeth) sy'n cael ei ddiffinio gennym fel a ganlyn: "pan fydd aelod o staff yn defnyddio grym yn fwriadol i gyfyngu ar symudiad plentyn yn erbyn ei ewyllys". Ni ddylai staff deimlo'u bod yn cael eu hatal rhag ymyrryd yn gorfforol o dan amgylchiadau eraill, fel cynnig cymorth corfforol neu gysur emosiynol pan fydd cymorth o'r fath yn briodol yn broffesiynol. Mae'n rhaid bod y defnydd o gymorth o'r fath yn gyson â'n polisi Diogelu Plant.

### Pwy sy'n cael atal? O dan ba amgylchiadau y gellir defnyddio ataliaeth?

Mae gan bawb yr hawl i ddefnyddio grym rhesymol i atal anaf go iawn neu anaf posibl i bobl neu ddifrod i eiddo (pŵer cyfraith gyffredin). Gall anaf i bobl gynnwys sefyllfaoedd pan fydd ymddygiad plentyn yn peri risg iddo'i hun. Ym mhob sefyllfa, dylai staff bob amser anelu at ddefnyddio techneg lai ymwithiol (fel rhoi cyfarwyddiadau uniongyrchol, gwaredu perygl o'r man penodol neu geisio cymorth ychwanegol) oni bai eu bod yn barnu y byddai defnyddio techneg o'r fath yn debygol o waethygu'r sefyllfa. Gall athrawon a staff eraill wedi'u hawdurdodi (gweler y polisi llawn i gael mwy o fanylion am hyn) hefyd ddefnyddio grym rhesymol pan fydd ymddygiad plentyn yn andwyol i gynnal trefn dda. Dylai staff fod yn ofalus iawn ynghylch defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol o dan amgylchiadau o'r fath, oherwydd dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai hynny'n briodol. Mae pŵer statudol – Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 – yn galluogi staff ysgol o dan bŵer statudol i ddefnyddio'r grym hynny sy'n rhesymol ac yn gymesur er mwyn atal disgybl rhag gwneud neu barhau i wneud unrhyw rai o'r canlynol:

- cyflawni trosedd (neu, yn achos disgybl o dan oedran cyfrifoldeb troseddol, yr hyn a fyddai'n drosedd i ddisgybl hŷn)
- achosi anaf personol i unrhyw berson (gan gynnwys y disgybl ei hun), neu ddifrod i'w eiddo)
- peryglu trefn a disgyblaeth dda yn yr ysgol neu ymhlith unrhyw ddisgyblion sy'n derbyn addysg yn yr ysgol, naill ai yn ystod sesiwn addysgu neu fel arall.

Ni ddylai ataliaeth byth gael ei defnyddio yn lle rheolaeth dda ar ymddygiad, ac ni ddylai gael ei defnyddio mewn modd blin, rhwystredig, bygythiol nac mewn ffordd sy'n cosbi. Er bod dyletswydd gofal gan bob aelod o staff i gymryd camau priodol mewn sefyllfa beryglus, nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt ddefnyddio ataliaeth os barnant fod eu hymdrechion i wneud hynny'n debygol o waethygu'r sefyllfa. Yn hytrach, gallent roi cyfarwyddyd i roi'r gorau i'r ymddygiad, galw am gymorth ychwanegol neu gymryd camau priodol i wneud yr amgylchedd mor ddiogel â phosibl (e.e. trwy ofyn i blant adael yr ystafell). Pan gaiff ei ragweld y bydd ymddygiad disgybl unigol yn ei gwneud yn debygol y gellir ei atal, dylid datblygu asesiad risg a chynllun ymyrryd a'u rhoi ar waith.

## **Pa fath o ymyriad all gael ei ddefnyddio?**

Dylai unrhyw ddefnydd ar ymyriad corfforol cyfyngol fod yn gyson â'r egwyddor o rym rhesymol. Mae hyn yn golygu bod angen iddo fod yn gymesur â risgiau'r sefyllfa, a bod cyn lleied o rym â phosibl yn cael ei ddefnyddio am gyfnod mor fyr â phosibl, er mwyn adfer diogelwch. Dylai staff:

### **Cyn cyswllt corfforol:**

Defnyddio pob ymdrech resymol i osgoi defnyddio ymyriad corfforol i reoli ymddygiad plant. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyfarwyddiadau llafar a rhybudd o fwriad i ymyrryd yn gorfforol. Ceisiwch alw am gymorth ychwanegol cyn ymyrryd. Gall cymorth o'r fath fod yn bresennol i wyllo yn unig, neu gall fod yn barod i roi cymorth corfforol ychwanegol fel bo'r angen.

Byddwch yn ymwybodol o ofod personol a'r ffordd y mae risgiau corfforol yn cynyddu pan fydd aelod o staff yn mynd i ofod personol plentyn trallodus neu flin. (Dylai staff sylwi hefyd y gallai myfyriwr ddehongli bod unrhyw ymyrraeth heb wahoddiad ag eiddo'r myfyriwr yn ymyrraeth ar ei ofod personol.) Dylai staff naill ai gadw draw ymhell, neu gau'r bwloch rhyngddynt eu hunain a'r plentyn yn gyflym iawn, heb adael gofod rhyngddynt lle gallent gael eu dyrnu neu eu cicio.

Osgowch ddefnyddio dull sy'n amlygu blaen y corff, ac wynebu'n uniongyrchol, sy'n amlygu ardaloedd sensitif y corff ac a allai gael ei ystyried yn fygythiol. Yn hytrach, dylai staff sefyll yn wysg eu hochr, gyda'u traed ar wahân i gynnig sylfaen sefydlog. Mae hyn yn cadw'r pen mewn safle mwy diogel, yn ogystal â throi rhannau sensitif y corff i ffwrdd rhag dwrn neu gic. Dylid cadw dwylo mewn man lle gellir eu gweld, gan adael cledrau'r dwylo'n agored i gyfleu'r diffyg bygythiad.

### **Pan fydd angen cyswllt corfforol:**

Anelwch am gyswllt ochr yn ochr â'r plentyn. Dylai staff osgoi rhoi eu hunain o flaen y plentyn (er mwyn lleihau'r risg o gael eu cicio) a dylent hefyd osgoi sefyll mewn safle y tu ôl i'r plentyn a allai arwain at honiadau o gamymddwyn rhywiol.

Mewn safle ochr yn ochr, dylai staff anelu at beidio â chael unrhyw fwloch rhwng corff yr oedolyn a'r plentyn. Mae hyn yn lleihau'r risg o effaith a niwed. Dylid anelu at gadw cefn yr oedolyn mor syth ac ymochrol (heb ei droi) â phosibl. Rydym yn cydnabod bod hyn yn anodd, o gofio bod y plant yr ydym yn gweithio gyda hwy yn aml yn llai o faint na ni.

Byddwch yn arbennig o ofalus o safle'r pen er mwyn osgoi taro'ch pen wrth ben y plentyn. Dylid dal plant wrth esgyrn "hir", h.y. osgoi dal wrth gymalau lle mae poen a niwed yn fwyaf tebygol. Er enghraifft, dylai staff anelu at ddal blaen y fraich neu ran uchaf y fraich yn hytrach na'r llaw, y penelin neu'r ysgwydd.

Sicrhewch nad oes unrhyw beth yn cyfyngu ar allu'r plentyn i anadlu. Yn benodol, mae hyn yn golygu osgoi dal plentyn o amgylch y frest neu'r stumog. Gwnewch bopeth yn eich gallu i osgoi codi plant.

Siaradwch â'r plentyn yn barhaus (er enghraifft, "Pan fyddi di'n stopio fy nghicio i, bydda' i'n dy ryddhau") oni fernir bod parhau i siarad yn debygol o wneud y sefyllfa'n waeth.

Peidiwch â disgwyl i'r plentyn ymddiheuro na dangos edifeirwch yng ngwres y funud. Defnyddiwch cyn lleied o rym cyfyngol ag y bo angen i gynnal diogelwch ac am gyfnod mor fyr â phosibl.

### **Ar ôl digwyddiad**

Mae bod yn rhan o ymyriad corfforol cyfyngol yn gallu bod yn annifyr i bawb, boed y plentyn sy'n cael ei ddal, y sawl sy'n dal, neu rywun arall sy'n gweld neu'n clywed am yr hyn sydd wedi digwydd. Dylid cynnig cymorth i bawb a oedd yn rhan o'r ymyriad siarad am yr hyn sydd wedi digwydd a chofnodi eu safbwyntiau lle bo angen. Dylai staff roi gwybod i'r pennaeth am ymyriad corfforol cyfyngol cyn gynted â phosibl ar ôl iddo ddigwydd; dylid rhoi gwybod i rieni/gofalwyr hefyd. Dylid llenwi'r daflen cofnodi ymyriad corfforol cyn gynted â phosibl a phob amser o fewn 24 awr i'r digwyddiad. Hefyd, dylid cynnal adolygiad yn dilyn y digwyddiad fel bod modd dysgu gwersi i leihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto yn y dyfodol.